Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD MERCHER, 15 MEHEFIN 2022**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD Y **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **SIAMBR - NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN. SA31 1JP AC O BELL** AM **10.00 YB, DYDD MERCHER, 22AIN MEHEFIN, 2022** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

**GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-**
**HTTPS://CARMARTHENSHIRE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Emma Bryer** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224029** |
| **E-bost:** | **ebryer@sirgar.gov.uk** |

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

3. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

4. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y:-**

| | | |
|---|---|---|
| **4 .1** | **2AIL MAWRTH, 2022** | 5 - 20 |
| **4 .2** | **9FED MAWRTH, 2022** | 21 - 34 |
| **4 .3** | **25AIN MAI, 2022** | 35 - 46 |

5. **PENODI AELOD CYMUNEDOL O'R PWYLLGOR I'R PWYLLGOR SAFONAU.** 47 - 50

6. **DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR:-**

| | | |
|---|---|---|
| **6 .1** | **14EG MAWRTH 2022** | 51 - 56 |
| **6 .2** | **28AIN MAWRTH 2022** | 57 - 58 |
| **6 .3** | **11EG EBRILL 2022** | 59 - 60 |

7. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

8. **CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

9. **CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU**

   **9 .1 MAE'R GRWP LLAFUR WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD ROB EVANS I GYMRYD SEDD WAG AR WASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

10. **COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

   **10 .1 PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD - 7FED MAWRTH 2022**

   **10 .2 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT - 16EG MAWRTH 2022**

   **10 .3 PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU - 16EG MAWRTH 2022**

   **10 .4 PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - 11EG MAWRTH 2022**

   **10 .5 PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - 8FED EBRILL 2022**

**10 .6 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 3YDD MAWRTH 2022**

**10 .7 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 31AIN MAWRTH 2022**

**10 .8 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 28AIN EBRILL 2022**

**10 .9 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 5ED EBRILL 2022**

**10 .10 PWYLLGOR SAFONAU - 8FED MAWRTH 2022**

**10 .11 PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED - 29AIN MAWRTH 2022**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR**

**DYDD MERCHER, 2 MAWRTH 2022**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd J.E. Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| K.V. Broom | C.A. Campbell | J.M. Charles | S.A. Curry |
| C.A. Davies | W.R.A. Davies | T.A.J. Davies | G. Davies |
| H.L. Davies | I.W. Davies | J.A. Davies | K. Davies |
| S.L. Davies | E. Dole | J.S. Edmunds | D.C. Evans |
| H.A.L. Evans | L.D. Evans | R.E. Evans | W.T. Evans |
| S.J.G. Gilasbey | C.J. Harris | P. Hughes-Griffiths | A.D. Harries |
| T.M. Higgins | J.K. Howell | P.M. Hughes | R. James |
| D.M. Jenkins | J.P. Jenkins | G.H. John | C. Jones |
| B.W. Jones | D. Jones | G.R. Jones | H.I. Jones |
| A. Lenny | M.J.A. Lewis | K. Lloyd | K. Madge |
| S. Matthews | A.S.J. McPherson | E. Morgan | A.G. Morgan |
| S. Najmi | D. Nicholas | B.D.J. Phillips | J.S. Phillips |
| D. Price | J.G. Prosser | B.A.L. Roberts | H.B. Shepardson |
| E.M.J.G. Schiavone | A.D.T. Speake | B. Thomas | D. Thomas |
| E.G. Thomas | G. Thomas | J. Tremlett | A.Vaughan Owen |
| D.T. Williams | D.E. Williams | | |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**
W. Walters, Prif Weithredwr;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet;
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh; Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cynllunio;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digidol;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cynorthwyo);
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau (Gwe-ddarlledwr);
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Sylwedydd);
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cymerwr Cofnodion).

**Rhith Gyfarfod: 10:.00yb – 13:45yp**

[Sylwyr:
- Am 12.40pm gohiriwyd cyfarfod y Cyngor i gael seibiant a chafodd ei ailgynnull am 12.45pm.
- Am 12:45pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd byddai'r cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr am 1:00pm, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.]

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr F. Akhtar, S. Allen, L. Bowen, D. Cundy, P.E.M. Edwards, A. Fox, A. James, J. James, T.J. Jones a G.B. Thomas.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| C. Campbell | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Aelodau o'r teulu'n gweithio i'r Awdurdod fel athrawon. |
| H.A.L. Evans | 5.3 - Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 tan 2024/25 a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2021/22 | Ei chwaer yn Brif Weithredwr Cymdeithas Tai. |
| H.A.L. Evans | 5.4 – Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2022-25 - Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin | Ei chwaer yn Brif Weithredwr Cymdeithas Tai. |
| A. Davies | 5.3 - Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 tan 2023/24 a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2022/23 | Llwybr Beicio Dyffryn Tywi yn mynd drwy dir ei fferm. |
| J.A. Davies | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Mab yn gweithio i'r Awdurdod fel athro. |
| E. Dole | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Mab yn gweithio i'r Awdurdod. |
| E. Dole | 5.2 - Y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) 2022/23 tan 2026/27 | Mab yn gweithio i'r Awdurdod. |
| J. S. Edmunds | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Aelod o'r teulu'n gweithio i'r Awdurdod. |
| L.D. Evans | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Merch yn gweithio i'r Awdurdod fel athrawes. |
| S.J.G Gilasbey | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Aelod o'r teulu'n gweithio fel athro yn un o'r ysgolion a grybwyllir yn yr adroddiad ac yn Llywodraethwr ALl yn Ysgol Gwenllian. |

| | | |
|---|---|---|
| S.J.G Gilasbey | 5.2 - Y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) 2022/23 tan 2026/27 | Aelod o'r teulu'n gweithio fel athro yn un o'r ysgolion a grybwyllir yn yr adroddiad ac yn Llywodraethwr ALl yn Ysgol Gwenllian. |
| S.J.G. Gilasbey | 5.3 - Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 tan 2024/25 a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2021/22 | Aelod o'r teulu'n denant i'r Cyngor. |
| S.J.G. Gilasbey | 5.4 – Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2022-25 - Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin | Aelod o'r teulu'n denant i'r Cyngor. |
| B.W. Jones | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Mab yn gweithio i'r Awdurdod fel athro. |
| K. Madge | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22 tan 2023/24 | Ei ferch yn gweithio yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol. |
| B.A.L. Roberts | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Aelod o'r teulu'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol |
| T. Higgins | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Ei nith yn gweithio yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd |
| P.M. Hughes | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Ei ferch yn gweithio i'r Awdurdod |
| R. James | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Ei bartner yn gweithio i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd. |
| A.D.T. Speake | 5.3 - Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 tan 2024/25 a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2021/22 | Aelod o'r teulu'n denant i'r Cyngor. |
| A. Vaughan Owen | 5.1 – Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 | Ei wraig yn gweithio i'r Awdurdod fel athrawes. |

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

- Ar ran y Cyngor, estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad â theulu'r cyn-gynghorydd Dilwyn Williams yn dilyn ei farwolaeth, a rhoddodd wybod i aelodau'r Cyngor am drefniadau'r angladd.

- Ar ran y Cyngor, bu i'r Cadeirydd gydymdeimlo â'r cyn-gynghorydd Peter Cooper, yn dilyn marwolaeth ei wraig, Jennifer.

- Dywedodd y Cadeirydd iddo fod mewn cynhyrchiad o *Grease* yn Theatr y Lyric yng Nghaerfyrddin yng nghwmni Maer y Dref. Roedd wedi mwynhau'r sioe'n arw.

- Ddydd Gwener, 25 Chwefror, 2022 bu'r Cadeirydd mewn digwyddiad Cawl a Chân elusennol a drefnwyd gan Gyngor Gwledig Llanelli. Hwn oedd digwyddiad codi arian diwethaf Cadeirydd Cyngor Gwledig Llanelli, a chafodd ei gynnal yn EJ's yn Llanelli.

- Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai'n ymweld yfory (3 Mawrth) â Mrs Keir ar ei phen-blwydd yn 110 oed. Roedd Mrs Keir yn byw yn Awel Tywi, Llandeilo ar hyn o bryd. Byddai llu o'r cyfarchion cynhesaf yn cael eu hestyn i Mrs Keir ar ei phen-blwydd.

- Bu i'r Cadeirydd wahodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Ken Lloyd, i wneud ei gyhoeddiadau i'r Cyngor. Dywedodd yr Is-gadeirydd wrth y Cyngor ei fod ef a'i wraig, ar 20 Chwefror 2022, wedi mynd i Wasanaeth Dinesig Cyngor Dinas Abertawe ar ran y Cadeirydd, ac mai pleser oedd gallu mynychu digwyddiad yn y cnawd a oedd wedi cael ei ohirio ym mis Mai 2021.

- Cyhoeddodd y Cynghorydd Handel Davies, gyda chaniatâd y Cadeirydd, ei fod ef fel Maer Llanymddyfri wedi cael y pleser o groesawu a llongyfarch Mathew Page yn ôl i Lanymddyfri yn dilyn ei gampau a roddodd le iddo yn Llyfr Record Byd Guinness, yr un cyntaf o Lanymddyfri i wneud hynny. Dros chwe diwrnod roedd Mr Page wedi beicio dros fil cilometr (625 milltir) yn ymweld â chwe deg saith o gestyll ar draws de Cymru a'r gororau. Byddai'r sylw yn y cyfryngau yn codi proffil Llanymddyfri ac yn enwedig Clwb Beicio Llanymddyfri, a oedd ond wedi ailgychwyn yn y flwyddyn ddiwethaf dan arweiniad Mathew. Byddai'r dref yn elwa ar y sylw hwn ac roedd bwriad ganddi i ennill enw da fel cyrchfan cyfeillgar i feicwyr.

- Rhoddodd yr Arweinydd, gyda chaniatâd y Cadeirydd, y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am ymdrechion trigolion a busnesau Sir Gaerfyrddin mewn ymateb i'r ymosodiad diweddar gan Rwsia ar Wcráin. Dros y dyddiau diwethaf, roedd ysbryd diwyro pobl Wcráin wrth amddiffyn eu hannibyniaeth, eu democratiaeth, a'u gwlad wedi bod yn amlwg ar y newyddion, ac ni ddylai'r lluniau torcalonnus o bobl ddiniwed wedi'u hanafu mewn ymosodiadau ac yn ffoi gan gario popeth posibl yn bethau ddylai fod yn digwydd yn y byd modern.

  Ers dechrau'r gwrthdaro, roedd grwpiau wedi ymgynnull ledled Cymru i ddangos eu hundod â phobl Wcráin ac roedd yr undod hwnnw wedi bod yn glir ar draws Sir Gâr dros y penwythnos. Roedd haelioni a chydsafiad pobl yn amlwg iawn wrth i bobl gasglu dillad, nwyddau ymolchi, a chyflenwadau meddygol i gefnogi ffoaduriaid oedd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi. Roedd cwmnïau cludo a chyflenwi lleol yn cefnogi'r ymdrechion drwy gynnig dosbarthu'r rhoddion.

  I gloi dywedodd yr Arweinydd byddai Cyngor Sir Caerfyrddin, fel sir noddfa falch a oedd eisoes wedi darparu cartrefi a diogelwch i bobl oedd yn ffoi rhag y rhyfel yn Syria ac Affganistan, yn barod unwaith eto i chwarae ei ran pe bai angen yn ôl Llywodraethau y DU a Chymru. Tan hynny byddem yn meddwl am ac yn gweddïo dros bobl Wcráin a thrigolion Sir Gaerfyrddin yr oedd y gwrthdaro yn effeithio arnynt.

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 9 CHWEFROR 2022

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022 gan eu bod yn gywir.**

## 5. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN A MATERION CYNLYNOL:-

### 5.1. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2022/23 I 2024/25

**[SYLWER:**

1. Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cynghorwyr, os oeddent wedi datgan buddiant cynharach, nad oedd angen iddynt ddatgan y buddiant hwnnw eto bryd hynny gan fod yr adroddiad yn ymwneud â Chyllideb Refeniw gyffredinol y Cyngor, ac y gallent aros yn y cyfarfod oni bai bod y drafodaeth yn troi'n uniongyrchol ac yn benodol at fater y buddiant.
2. Roedd y Cynghorwyr C. Campbell, J.A. Davies, E. Dole, J.S. Edmunds, L.D. Evans, S.J.G. Gilasbey, P.M. Hughes, B.W. Jones, B.A.L. Roberts, T. Higgins, A. Vaughan Owen a R. James wedi datgan buddiant yn gynharach fod aelodau o'u teulu yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod.
3. Ailadroddodd y Cynghorydd K. Madge ei ddatganiad cynharach.]

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror, 2022 (gweler Cofnod 5), wedi ystyried Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022/23 tan 2024/25 a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion yn ei chylch, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, ar ran y Cabinet, pryd y bu'n manylu ar gefndir y cynigion ar gyfer y gyllideb oedd yn cael eu cyflwyno at ystyriaeth y Cyngor, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb. Roedd manylion llawn y setliad dros dro wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, ond roedd y pennawd ar sail Cymru gyfan, roedd y cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol 9.4% yn fwy na setliad 2021/22, a dyraniad Sir Gaerfyrddin oedd 9.2% (£311.597m).

Esboniwyd bod proses gyllideb Llywodraeth Cymru llawer hwyrach na'r arfer, a dim ond y diwrnod cynt (1 Mawrth) roedd ffigurau'r setliad terfynol wedi cael eu cyhoeddi. Gallai'r Aelodau'n weld y crynodeb diweddaraf o'r gyllideb a oedd wedi'i ddiweddaru gyda ffigurau setliad terfynol Llywodraeth Cymru ac wedi'i gyhoeddi fel ychwanegiad at yr agenda fel 'Tabl 1 wedi'i ddiweddaru'. Adroddwyd bod ffigurau'r setliad terfynol yn darparu cynnydd o £5,905 ar gyfer Sir Gaerfyrddin a oedd o ganlyniad i addasiad technegol i'r fformiwla, a chynigiwyd bod y swm yn cael ei ychwanegu at y gronfa wrth gefn a oedd eisoes wedi'i neilltuo ar gyfer COVID.

Nodwyd bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wedi gwneud rhai addasiadau i rai o'r ffigurau eraill yn yr adroddiad, fel rhan o'r drefn arferol gan fod gwybodaeth gliriach ar gael bellach, gyda chyfanswm y dilysiad presennol yn ychwanegu rhyw £16.2m at y gyllideb.

Dywedwyd bod y gyllideb yn cadw'r cyflog tybiedig o 4% o lwfans am 2022/23 ar gyfer y Cyd-gyngor Cenedlaethol yn ogystal â staff addysgu, ac mai dyma'r dilysiad mwyaf arwyddocaol o hyd yn y tybiaethau. Fodd bynnag roedd yn unol â disgwyliadau cyffredinol Awdurdodau ac yn cydnabod bod chwyddiant yn cynyddu'n llawer uwch na 5%.

Dywedwyd bod cynigion y gyllideb wreiddiol, yr ymgynghorwyd arnynt drwy gydol mis Ionawr 2022, yn rhagdybio dilysu gwasgfeydd a gadarnhawyd o ran cyflogau a chwyddiant i ysgolion, ac fel hynny oedd hi o hyd o ran y cynigion terfynol. At hynny nid oedd dim arbedion wedi'u dyrannu i'r cyllidebau a ddirprwyir i ysgolion am 2022/23, gan alluogi penaethiaid a holl staff yr ysgolion i ganolbwyntio ar helpu dysgwyr Sir Gaerfyrddin i fynd yn ôl ar y trywydd iawn ar ôl 2 flynedd o darfu enfawr.

Dywedwyd bod newidiadau i rai o'r rhagdybiaethau allweddol megis cynnydd mewn prisiau ynni, ac roedd rhyddhau cyfraniad cyfalaf datblygu economaidd y llynedd yn rhoi cyfle i wneud rhai newidiadau ac amlygwyd y canlynol:

- 50k o gyllid ychwanegol i ariannu capasiti ychwanegol yn yr adain hawliau tramwy cyhoeddus
- 190k o gyllid ychwanegol ar gyfer costau prydau ysgol, yn dilyn hysbysiad diweddar o gynnydd mewn prisiau cyflenwyr.

Dywedwyd bod yr addasiadau canlynol wedi cael eu hargymell gan y Cabinet a'u bod yn ystyried canlyniad y broses ymgynghori ac yn ymateb i'r adborth gan y cyhoedd a chynghorwyr:

- dileu'r gostyngiad arfaethedig o £15k i grantiau'r 3ydd sector,
- dileu'r gostyngiad staffio o £95k i TGCh,
- atal y cynlluniau i gyflwyno taliadau mewn rhagor o feysydd parcio

Dywedwyd, gyda'r newidiadau hynny, fod digon o arian ar gael i gapio'r cynnydd yn y dreth gyngor i 2.5% ar gyfer 2022/23. Dywedodd fod ymateb y cyhoedd wedi dangos yn glir fod y mwyafrif o blaid y cynnydd isaf posibl, ac wrth gydnabod bod costau byw yn codi'n gyflym, roedd yn bwysig gwneud cymaint ag oedd yn rhesymol bosibl i gefnogi trigolion Sir Gaerfyrddin. At hynny cafodd ei ddweud bod pennu cynnydd mor isel â 2.5% i'r Dreth Gyngor yn gryn gamp, o ystyried y risgiau niferus a'r pwysau ariannol o fewn y gyllideb, gan gynnwys y gydnabyddiaeth bod chwyddiant yn rhedeg ymhell dros 5%.

Dywedwyd pe bai cynigion y gyllideb yn cael eu mabwysiadu, byddai'n caniatáu i'r Cyngor bennu cyllideb deg a chytbwys a oedd nid yn unig yn ymateb i'r prif bryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad, ond a oedd hefyd yn cydnabod pwysau sylweddol chwyddiant a risgiau ariannol unrhyw ymateb i Covid-19 yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:**

**5.1.1 Bod Strategaeth y Gyllideb, gan gynnwys Tabl 1 wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2022/23, yn cael ei chymeradwyo;**

**5.1.2 Bod Treth Gyngor Band D am 2022/23 i'w gosod ar £1,396.04 (cynnydd o 2.50% ar gyfer 2022-23);**

**5.1.3 Dileu cynigion arbedion penodol fel y nodir ym mharagraff 3.2.5 o'r adroddiad ac a nodir uchod;**

**5.1.4 Bod y newidiadau i'r gyllideb fel y'u crynhoir ym mharagraff 4.1.4 o'r adroddiad gan ystyried yr ystod o ymatebion a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori a'r pwysau ychwanegol fel y nodwyd yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo;**

**5.1.5 Bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig amodol yn cael ei gymeradwyo yn sylfaen i gynllunio ariannol ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod;**

**5.1.6 Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw newid sy'n angenrheidiol o ganlyniad i setliad terfynol Llywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2022.**

## 5.2. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) - 2022/23-2026/27

(NODER: Ailadroddodd y Cynghorwyr S.J.G Gilasbey ac A. Davies ddatganiadau a wnaed yn gynharach ar yr eitem hon)

Bu i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau gyflwyno i'r Cyngor, ar ran y Cabinet, Raglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) 2022/23 i 2026/2027 a roddai ystyriaeth i'r ymgynghoriad a gyflawnwyd. Roedd y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror, 2022 (gweler Cofnod 6), wedi ystyried y Rhaglen ac wedi gwneud nifer o argymhellion i'w hystyried gan y Cyngor.

Byddai'r rhaglen newydd yn gweld buddsoddiad o £275m dros bum mlynedd. Byddai'r rhaglen yn cael ei chefnogi gan gyllid gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, ac adnoddau'r cyngor ei hun.

Nodwyd bod y rhaglen gyfalaf fanwl dros dro yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau ar 2 Chwefror 2022 at ddibenion ymgynghori. Yn dilyn codi pryderon ynghylch diffyg arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer priffyrdd, roedd y rhaglen wedi'i diwygio i gynnwys ymrwymiadau pellach yn y maes hwn. Cafodd rhan o'r cofnod perthnasol o'r cyfarfod ei hatodi i'r adroddiad fel Atodiad B er gwybodaeth.

Dywedwyd bod y rhaglen yn cynnwys dau brosiect trawsnewidiol newydd. Y cyntaf yw hwb gwerth £19.6m yng nghanol Tref Caerfyrddin a'r ail yw buddsoddiad gwerth £19m i gwblhau Llwybr Dyffryn Tywi rhwng Caerfyrddin a Llandeilo. Fel rhan o'r prosiect, byddai £366k ar gael i uwchraddio'r ddarpariaeth parcio. At hynny, byddai cyllid ychwanegol o £16m ar gael ar gyfer Parth 1 datblygiad Pentre Awel yn Llanelli, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad yn y prosiect i £87m.

Dywedwyd wrth y Cyngor, yn ogystal â'r uchod, fod cefnogaeth barhaus i'r canlynol:

- £2.5m ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- £250k i wella Diogelwch ar y Ffyrdd
- £600k ar gyfer Adnewyddu Priffyrdd yn barhaus
- £400k ar gyfer Goleuadau Cyhoeddus
- £3m ar gyfer Cynnal a Chadw Cyfalaf ar gyfer buddsoddi mewn ystad eiddo.

Byddai creu dyfarniad blynyddol newydd o £250k a fyddai'n dechrau yn 2022/23 ar gyfer seilwaith draenio priffyrdd yn helpu i wneud y rhwydwaith priffyrdd yn fwy gwydn i dywydd yn y dyfodol ac yn lleihau'r perygl o lifogydd. Gwelwyd hefyd y bwriad i barhau â'r dyraniad blynyddol o £66k i Hawliau Tramwy a Chilffyrdd yn 2026/27.

Dywedwyd y byddai buddsoddiadau pellach yn cael eu gwneud ar draws y rhaglen:

- Byddai'r adran addysg yn gweld bod cyllid ar gael i gwblhau'r cilfannau bysiau newydd yn Ysgol Dyffryn Taf, a dyfarniad blynyddol o £500k yn cael ei gyflwyno ar gyfer gwaith addysg cyffredinol.

- Byddai'r adran Cymunedau'n cael Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gyda chynnydd mewn buddsoddiad o £500k i £2.5m y flwyddyn yn 2025/26, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad dros y 5 mlynedd i £10.5m. O fewn y portffolio hamdden cynigiwyd cynnydd o £1m mewn cyllid i uwchraddio'r cae 3G yng Nghanolfan Hamdden Dyffryn Aman gan ddwyn cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer y prosiect i £2m.

- O ran adran yr Amgylchedd, cynlluniwyd £150k ar gyfer 2022/23 a 2023/24 i roi arian cyfatebol ar gyfer gwaith rheoli llifogydd a lliniaru llifogydd. Bydd £4.7m ar gyfer cerbydau sbwriel ac ailgylchu newydd, ynghyd â £1m ychwanegol o gronfeydd wrth gefn, sef cyfraniad arian cyfatebol yr Awdurdod at ein Strategaeth Wastraff a fyddai'n cyflwyno cynllun didoli wrth ymyl y ffordd ar gyfer casgliadau ailgylchu.

Er mwyn lliniaru effaith y diffyg cymorth gan Lywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer buddsoddi mewn priffyrdd, dywedwyd wrth y Cyngor fod y rhaglen yn cynnwys £2.4m o arian newydd a ariannwyd o gronfeydd wrth gefn y cyngor. Byddai hyn yn ychwanegol at y £600k yn y rhaglen dreigl flynyddol. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod y £1.3m o gyllid cyfalaf cyffredinol adneuol oedd ar gael i'r Awdurdod yn hwyr yn y flwyddyn ariannol gyfredol 2021-22 hefyd wedi'i glustnodi ar gyfer gwelliannau i'r priffyrdd. Gyda'i gilydd, hwn oedd y buddsoddiad unigol mwyaf o £4.3m mewn seilwaith priffyrdd lleol gan y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Rhagwelwyd y bydd £1.34m o gyllid gan Lywodraeth Cymru o 2023/24 ymlaen yn ariannu prosiectau datgarboneiddio ac felly roedd wedi'i gynnwys yn y rhaglen. Fodd bynnag, o gofio na fyddai'r cyllid hwn ar gael tan ail flwyddyn y rhaglen, cynigiwyd darparu £500k o gronfeydd wrth gefn y cyngor yn 2022/23 i roi hwb i fesurau datgarboneiddio ar draws yr ystâd adeiledig.

Byddai £2.7m a ddyrannwyd ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ar draws y rhaglen yn cael ei gynnal, gan gynnwys cyllid blynyddol o £200k i gefnogi prosiectau trawsnewidiol digidol ar draws gwasanaethau'r cyngor.

Dywedwyd bod yr arian Cyngor Sir oedd ar gael ar gyfer y rhaglen hon yn £141m ar hyn o bryd a'i fod yn cynnwys benthyca, wedi'i gynnal a thymor byr heb ei gynnal, cronfeydd wrth gefn, cyllid preifat a chyllid refeniw uniongyrchol. Byddai grantiau cyfalaf a chyfraniadau o £134m yn dod o gyrff arian grant allanol.

Fel rhan o setliad eleni, darparodd Llywodraeth Cymru ffigurau dangosol o ran cyllid cyfalaf cyffredinol hyd at 2024/25, a oedd yn cael ei adleisio yn y rhaglen. Roedd y cyllid ar gyfer blynyddoedd pedwar a phump y rhaglen yn seiliedig ar lefel dybiedig o gymorth sy'n cyfateb i'r hyn a dderbyniwyd yn 2024/25 wrth symud ymlaen. Nodwyd bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23 £1.8m yn llai na'r hyn a dderbyniwyd yn 2021/22 a oedd yn annisgwyl. O ystyried y buddsoddiadau sylweddol ym mlynyddoedd 1 a 2 y rhaglen a'r setliad cyfalaf is gan Lywodraeth Cymru, cynigiwyd defnyddio benthyca heb gymorth, tymor byr, i atal yr hyn a fyddai fel arall yn ddiffyg cyllid ar ddechrau'r rhaglen. Byddai hyn yn cael ei ad-dalu ym mlynyddoedd 3, 4 a 5 y rhaglen.

Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn manylu ar y rhaglen lawn, a ariannwyd yn llawn am y pum mlynedd.

Nodwyd bod dogfen Strategaeth Gyfalaf y Cyngor wedi'i hatodi yn Atodiad C, fel oedd yn ofynnol gan y côd cyllid cyfalaf darbodus. Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y cyd-destun tymor hir o ran y penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi, ac yn rhoi ystyriaeth briodol i risg a gwobrwyo, a'r effaith ar gyflawni ar ganlyniadau blaenoriaethol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:**

**5.2.1 Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd a'i chyllid, fel y'u nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad, gyda 2022/23 yn gyllideb bendant a chyllidebau 2023/24 i 2026/27 yn gyllidebau amhendant/dangosol yn cael eu cymeradwyo;**

**5.2.2 Bod y rhaglen yn cael ei hadolygu, yn ôl yr arfer, oni lwyddir i gael y cyllid disgwyliedig gan gyrff allanol neu'r Cyngor Sir;**

**5.2.3 Bod y Strategaeth Gyfalaf, fel y manylir arni yn Atodiad C, yn**

**cael ei chymeradwyo;**

**5.2.4 Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol o ganlyniad i setliad terfynol Llywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2022.**

**Am 12.40pm gohiriwyd cyfarfod y Cyngor i gael seibiant a chafodd ei ailgynnull am 12.45pm.**

## 5.3. CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI REFENIW A CYFALAF A PHENNU RHENTI TAI AR GYFER 2022/23

**HYD Y CYFARFOD**

Wrth roi ystyriaeth i'r eitem hon, tynnwyd sylw'r Cyngor at Reol 9 o'r Weithdrefn Gorfforaethol - 'Hyd Cyfarfod' - ac at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers bron i dair awr. Felly:

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL atal Rheol 9 o'r Weithdrefn Gorfforol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y materion oedd yn weddill ar yr agenda.**

**[NODER:** Ailadroddodd y Cynghorwyr S.J.G. Gilasbey a H.A.L. Evans ddatganiadau a wnaed yn gynharach ar yr eitem hon a gadael y cyfarfod tra rhoddwyd ystyriaeth iddynt]

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror 2022 [gweler Cofnod 7], wedi ystyried Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 tan 2024/25 a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2022/23 a'i fod wedi gwneud nifer o argymhellion, fel y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i'w hystyried gan y Cyngor.
Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo hefyd gan y Pwyllgor Craffu – Cymunedau yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2022, fel rhan o'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei baratoi gan adlewyrchu'r cynigion diweddaraf a oedd yn rhan o Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, sef y prif gyfrwng cynllunio ariannol ar gyfer darparu Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+) ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod buddsoddiad cyfalaf o tua £231m wedi darparu Safon Tai Sir Gaerfyrddin i denantiaid ac, yn fwy diweddar, hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, roedd £83m pellach wedi cael ei wario ar gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy ar gyfer eiddo a thenantiaid. Dros y 3 blynedd nesaf roedd disgwyl i £64m pellach gael ei wario ar gynnal a gwella'r stoc tai.

Roedd y gyllideb hefyd yn darparu cyllid o tua £56m dros y 3 blynedd nesaf i gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy a £56m i gefnogi'r Rhaglen Datblygu Tai.

Atgoffwyd y Cyngor, ers 2015, ei fod yn ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu Polisi Cysoni Rhent Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a oedd yn golygu bod y cynnydd arfaethedig mewn rhent yn cael ei ragnodi gan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, a thrwy hynny, ddarparu dosbarthiad mwy teg o'r rhenti ar gyfer tenantiaid y sector cymdeithasol. Er i'r polisi hwnnw ddod i ben yn 2018/19, a bod polisi interim wedi'i roi ar waith ar gyfer 2019/20, roedd Llywodraeth Cymru wedi datblygu polisi newydd i'w weithredu yn 2020/21 am gyfnod o 5 mlynedd o 2020/21, a oedd yn cynnwys rhai gofynion ychwanegol/diwygiedig, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Roedd prif elfennau'r polisi hwnnw'n caniatáu i Awdurdodau Lleol gynyddu cyfanswm y rhent gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) +1% ar gyfer pob un o'r pum mlynedd hyd at 2024/25. Roedd hefyd yn caniatáu i lefel y rhent ar gyfer tenantiaid unigol godi o hyd at £2 ychwanegol ar ben CPI+1% ar gyfer cysoni rhenti, ar yr amod na fyddai cyfanswm yr incwm rhent a gasglwyd gan y landlord cymdeithasol yn fwy na CPI+1%.

Fodd bynnag, dywedwyd pe bai'r CPI y tu allan i'r ystod o 0% i 3%, fod y polisi a ddarparwyd i'r Gweinidog â chyfrifoldeb am Dai benderfynu ar y newid priodol i lefelau rhent i'w gymhwyso ar gyfer y flwyddyn honno yn unig. Gan fod CPI yn 3.1% ym mis Medi 2021 roedd y cymal hwn wedi'i actifadu eleni ac roedd Gweinidog y Llywodraeth dros Newid yn yr Hinsawdd wedi cyfarwyddo na ddylai'r cynnydd mwyaf yn yr amlen rent ar gyfer unrhyw awdurdod lleol fod yn fwy na 3.1%

At hynny, byddai'r polisi cyfredol hwn yn gymwys tan 2024/25 ac yn cynnwys meini prawf ychwanegol ynghylch bodlonrwydd tenantiaid, cyfleusterau amwynder, lleihau achosion o droi allan ac effeithlonrwydd ynni. Roedd hefyd yn nodi bod angen datgarboneiddio'r stoc tai cymdeithasol, a fyddai'n fuddsoddiad mawr i awdurdodau lleol ac yn flaenoriaeth i'r Awdurdod hwn.

Dywedwyd wrth y Cyngor fod gosod y rhent o fewn polisi presennol y Llywodraeth, yn cydnabod yr angen i osod y rhent ar lefel fforddiadwy i denantiaid, gan gyflawni'r dyheadau a cheisio sicrhau bod yr ymrwymiad blaenorol i denantiaid trwy weithredu'r polisi cysoni a sefydlu lefel decach o rent i'r holl denantiaid yn anodd iawn ei gyflawni.

Wrth ymateb i'r holl flaenoriaethau a chydbwyso'r cynllun busnes, byddai'r cynnydd o 2.9% ar gyfartaledd mewn rhent yn cynhyrchu rhent cyfartalog o £94.26 i denantiaid.

Fel rhan o'r amlen cynnydd cyffredinol mewn rhent, cynigiwyd bod yr Awdurdod yn parhau â'r cynnydd rhent a osodwyd ar uchafswm o £1 ar gyfer eiddo sy'n is na'r rhent targed. Bydd hyn yn cynhyrchu cynnydd o £2.66 yr wythnos mewn rhent tai cyfartalog, sy'n is na lefel cynnydd uchaf Llywodraeth Cymru a byddai'n arwain at lefel rhent a fyddai'n un o'r lefelau rhent isaf a bennwyd ar draws yr un ar ddeg o Awdurdodau yng Nghymru sy'n cadw stoc dai.

Yn ogystal, roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cynnig i'r Cyngor fod rhenti'r garejis yn cael eu cadw'n £9.00 yr wythnos heb unrhyw gynnydd, a bod y polisi ynghylch Taliadau am Wasanaethau yn parhau i gael ei weithredu, lle'r oedd y taliadau'n cael eu pennu i dalu am y gwasanaethau ychwanegol a ddarperir mewn lleoliadau penodol ac nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan y rhent.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:**

**5.3.1 Bod y rhent tai cyfartalog yn cael ei gynyddu yn unol â Pholisi Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:-**

- **a) Bod cynnydd o 2.74% yn cael ei wneud i renti eiddo sydd ar y targed**
- **b) Bod eiddo lle mae'r rhent yn is na'r rhenti targed yn cynyddu gan 2.74% yn ogystal â'r cynnydd mwyaf posibl o £1.00**
- **c) Bod rhenti a oedd yn uwch na'r rhent targed yn cael eu rhewi hyd nes iddynt ddod yn unol â'r targed**
- **d) Bydd hyn yn arwain at gynnydd o 2.9% neu £2.66 yr wythnos o ran y rhent tai cyfartalog**

**Gan arwain felly at Gynllun Busnes cynaliadwy, cynnal STSG+, darparu adnoddau ar gyfer ein Cynllun Cyflawni Adfywio a Datblygu Tai, ac roedd yn cael ei gynnal gan y Tîm Strategol Adfywio a Thai.**

**5.3.2 Gweithredu'r cynnydd mwyaf posibl o £1.00 ar gyfer rhenti sy'n is na'r rhenti targed, hyd nes y cyrhaeddir y rhenti targed;**

**5.3.3 Cadw rhent garejis yn £9.00 yr wythnos a sylfeini garejis yn £2.25 yr wythnos;**

**5.3.4 Rhoi'r Polisi ynghylch Taliadau am Wasanaethau ar waith er mwyn sicrhau bod y tenantiaid sy'n cael gwasanaethau penodol yn talu am y gwasanaethau hynny;**

**5.3.5 Cynyddu'r taliadau am ddefnyddio gwaith trin carthffosiaeth y Cyngor, yn unol â'r cynnydd mewn rhenti;**

**5.3.6 Cymeradwyo Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2022/23 (cyllidebau dangosol oedd rhai 2023/24 a 2024/25), fel y nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad;**

**5.3.7 Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig a'r cyllido perthnasol ar gyfer 2022/23, a'r gwariant mynegiannol a bennwyd ar gyfer 2023/24 hyd 2024/25, fel y'u nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad.**

## 5.4. CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2022-25 RHAGLEN BUDDSODDI MEWN TAI SIR GAERFYRDDIN

(NODER: Gan iddynt ddatgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, nid oedd H.A.L. Evans ac S.J.G. Gilasbey yn bresennol wrth ystyried yr eitem hon nac wrth bleidleisio arni.

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror, 2022 (gweler cofnod 8) wedi ystyried Cynllun Busnes Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (CHS+) 2022-2025, yr oedd ei ddiben fel a ganlyn:-

- Egluro gweledigaeth a manylion y Rhaglen Buddsoddiadau Tai dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys cynlluniau gwella stoc tai, y rhaglen adeiladu tai newydd, cynlluniau i ddod yn awdurdod carbon sero-net, a'r hyn y mae'n ei olygu i'r tenantiaid.

- Dangos bod yr incwm a gafwyd gan denantiaid a'r ffynonellau cyllid eraill yn darparu rhaglen gyfalaf o £120m dros y tair blynedd nesaf i:

    - Gwella a chynnal a chadw'r stoc bresennol;
    - Cefnogi'r gwaith o ddarparu dros 2,000 o dai newydd mewn cymunedau;
    - Cefnogi Egwyddorion Carbon Sero-net y Cyngor, gan greu cartrefi sy’n defnyddio ynni yn effeithlon, lleihau allyriadau carbon a hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy i denantiaid;
    - Helpu i ysgogi twf ac adferiad economaidd yn dilyn pandemig Covid-19;
    - Helpu i greu cymunedau cynaliadwy cryf - lleoedd lle mae pobl yn falch o allu eu galw'n gartref iddyn nhw.

- Cadarnhaodd y proffil ariannol, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau presennol, ar gyfer cyflawni'r rhaglen buddsoddiadau tai a thai Cyngor newydd dros y tair blynedd nesaf.

- Llunio cynllun busnes ar gyfer y cais blynyddol i Lywodraeth Cymru am Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) ar gyfer 2022/23, sy’n cyfateb i £6.2m.

Dywedwyd bod yr adroddiad wedi'i rannu i'r pum thema allweddol ganlynol gyda'r nod o symud pethau ymlaen am y tair blynedd nesaf:-

1. Thema 1 – Cefnogi Tenantiaid a Phreswylwyr;
2. Thema 2 – Buddsoddi mewn Cartrefi a'r Cyffiniau;
3. Thema 3 - Darparu Rhagor o Dai
4. Thema 4 – Datgarboneiddio'r Stoc Dai
5. Thema 5 – Yr Economi Leol, Budd i'r Gymuned a Chaffael

I gloi, roedd y Cynllun yn cefnogi tenantiaid presennol y Cyngor, yn ogystal â darpar denantiaid, ac yn cydbwyso'r hyn oedd ei angen ar denantiaid nawr a'r hyn fyddai ei angen yn y dyfodol.

Cynigiwyd ac eiliwyd y gwelliant canlynol i'r argymhelliad cyntaf yn yr adroddiad:

'Cadarnhau'r weledigaeth ar gyfer ein rhaglenni buddsoddi mewn tai dros y tair blynedd nesaf a chyflwyno rhaglen byngalos Cyngor ar draws wardiau'r Cyngor yn Sir Gaerfyrddin. Byddai hyn yn golygu bod tai 3 ystafell wely ar gael i deuluoedd ifanc. Yn ogystal, mae angen i ni glustnodi tir mewn wardiau ar gyfer byngalos newydd yn rhaglen buddsoddi mewn tai Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2022-27.

Amlinellodd y cynigydd y rhesymau dros y gwelliant hwn

Yn dilyn trafodaeth a phleidlais,

**PENDERFYNWYD peidio â chefnogi'r Gwelliant i'r Cynnig.**

Ar hynny, aeth y Cyngor ymlaen i bleidleisio ar y Cynnig gwreiddiol a

**PHENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynnig a'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:**

**5.4.1 Cadarnhau gweledigaeth y rhaglenni buddsoddi mewn tai dros y tair blynedd nesaf;**

**5.4.2 Cyflwyno Cynllun Busnes 2022/23 i Lywodraeth Cymru;**

**5.4.3 Nodi'r cyfraniad a wnaeth y Cynllun i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Adfywio a Datblygu Tai i gefnogi'r gwaith o ddarparu dros 2,000 o gartrefi;**

**5.4.4 Nodi'r egwyddorion sydd wrth wraidd symud tuag at gartrefi carbon-net a datblygu Strategaeth Datgarboneiddio a Gwres Fforddiadwy i gefnogi hynny;**

**5.4.5 Nodi pwysigrwydd y buddsoddiad sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun a'i rôl o ran ysgogi'r economi leol a'i hadfer yn dilyn pandemig Covid-19.**

## 5.5. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2022-23

Hysbyswyd y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror, 2022 (gweler Cofnod 9) wedi ystyried Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23.

Bu i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor ac atgoffa'r Aelodau fod y Cyngor, yn unol â gofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys 2017, wedi cytuno i gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisïau ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o ran Rheoli'r Trysorlys. Roedd hefyd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwneud â hi. Yn ogystal, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Dywedwyd bod yr Arferion Rheoli'r Trysorlys a oedd wedi'u hatodi i'r adroddiad fel Atodiad A yn nodi sut byddai'r Cyngor yn ceisio cyflawni ei bolisïau a'i amcanion yn y Trysorlys ac argymhellwyd sut byddai'n rheoli'r gweithgareddau hynny.

Adroddwyd bod swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn sicrhau bod y llif arian yn cael ei gynllunio'n ddigonol a bod arian parod ar gael pan oedd angen. Roedd arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn partïon i gontract risg isel a oedd yn briodol i barodrwydd i dderbyn risg isel y Cyngor, gan ddarparu hylifedd addas cyn ystyried adenillion buddsoddi, fel y nodir yn Atodiad B yr adroddiad.

Rhaid i'r Awdurdod, wrth gynnal rhestr parti i gontract, gydymffurfio â'r meini prawf risg gan ystyried diogelwch, hylifedd ac elw, gyda diogelwch yn brif egwyddor. Roedd y rhestr parti i gontract bresennol wedi'i hatodi i'r adroddiad fel Atodiad C.

Hefyd, dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23, a nodir yn Atodiad D i'r adroddiad.

Roedd manylion y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn Atodiad E i'r adroddiad.

Adroddwyd bod y Polisi a'r Strategaeth hefyd yn ystyried y benthyca tebygol fyddai'n ofynnol ar gyfer prosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe dan arweiniad Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd disgwyl i'r Cyngor fenthyg £39.1m dros y cyfnod 2022-23 i 2024-25.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:**

**5.5.1 Bod Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022-23 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo;**

**5.5.2 Bod Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodaeth, y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, y Strategaeth Fuddsoddi, a'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.**

## 6. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR 31 IONAWR 2022

Gan gyfeirio at Gofnod 8 o Gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2022 ynghylch Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032, mynegwyd pryder ynghylch mater a oedd wedi codi mewn perthynas â nifer o ddatganiadau anghywir a oedd wedi bod yn cylchredeg ar y cyfryngau cymdeithasol mewn cysylltiad â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant fynd i'r afael â'r mater hwn ar fyrder.

Wrth ymateb, eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant beth oedd diben y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a oedd yn nodi gweledigaeth 10 mlynedd y Cyngor i greu system gynllunio well ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 31 Ionawr, 2022.**

## 7. RHYBUDDION O GYNNIG.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim Rhybuddion o Gynnig wedi dod i law.

## 8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan aelodau.

## 10. COFNODION ER GWYBODAETH

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar agenda 10.1 – 10.7 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

# CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 9 MAWRTH 2022

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd J.E. Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| F. Akhtar | S.M. Allen | L.R. Bowen | K.V. Broom |
| J.M. Charles | D.M. Cundy | S.A. Curry | C.A. Davies |
| W.R.A. Davies | T.A.J. Davies | G. Davies | H.L. Davies |
| I.W. Davies | J.A. Davies | K. Davies | S.L. Davies |
| E. Dole | J.S. Edmunds | D.C. Evans | H.A.L. Evans |
| L.D. Evans | R.E. Evans | W.T. Evans | S.J.G. Gilasbey |
| P. Hughes-Griffiths | A.D. Harries | T.M. Higgins | J.K. Howell |
| P.M. Hughes | J.D. James | R. James | D.M. Jenkins |
| G.H. John | C. Jones | B.W. Jones | D. Jones |
| G.R. Jones | H.I. Jones | A. Lenny | M.J.A. Lewis |
| K. Lloyd | K. Madge | S. Matthews | A.S.J. McPherson |
| E. Morgan | A.G. Morgan | B.D.J. Phillips | J.S. Phillips |
| D. Price | J.G. Prosser | B.A.L. Roberts | H.B. Shepardson |
| E.M.J.G. Schiavone | B. Thomas | D. Thomas | E.G. Thomas |
| G.B. Thomas | G. Thomas | J. Tremlett | A.Vaughan Owen |
| D.T. Williams | D.E. Williams | | |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
A. Wood, Rheolwr Gwasanaethau Pobl
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
S Burford, Rheolwr y Prosiect
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

(Noder:

- Am 12:55pm tynnwyd sylw'r Cyngor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd byddai'r cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr am 1:00pm, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol

23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.]

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 yb - 1.30 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Campbell, P. Edwards, A. Fox, C. Harris, T.J. Jones, S. Najmi, D. Nicholas ac A. Speake.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| H.A.L. Evans | 7.1 - Fersiwn Drafft o Gynllun Cyflawni Pum Mlynedd - Adfywio a Datblygu Tai (2022-2027) | Ei chwaer yn Brif Weithredwr Cymdeithas Tai |
| B. Thomas | 7.7 Rhaglen Moderneiddio Addysg - Cynnig i Newid Natur y Ddarpariaeth yn Ysgol y Felin | Llywodraethwr Ysgol a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol |
| K. Lloyd | 8.3 – Cofnodion y Cabinet 28 Chwefror 2022 – Cofnod 6 – Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin 2020 - 2023 | Cyfranddaliwr yn Ynni Sir Gâr - caniatawyd gollyngiad iddo siarad, ond nid pleidleisio |
| E. Dole | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Mab yn gweithio yn yr Adran Adfywio |
| T.A.J. Davies | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Ei Chwaer-yng-nghyfraith yn Bennaeth Gwasanaeth |
| S.J.G. Gilasbey | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Aelod o'r teulu'n gweithio fel Athrawes |
| S.J.G. Gilasbey | 8.2 - Cofnodion y Cabinet 21 Chwefror 2022 - Cofnod 7 - Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 tan 2024/25 (Refeniw a Chyfalaf) a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2022/23 | Mae aelod o'r teulu yn denant i'r Cyngor |
| R. James | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Mae ei bartner yn gweithio yn Llyfrgell Llanelli |
| L. Bowen | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Mae ei wraig yn gweithio yn yr Adran Gyfieithu |
| D. Cundy | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Perthnasau'n gweithio i'r Cyngor |
| J.S Edmunds | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Teulu yn gweithio i'r Cyngor |
| T.M. Higgins | 5 – Datganiad Polisi Tâl | Ei nith yn gweithio yn y Gwasanaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | 2022-23 | Llyfrgelloedd |
| K. Madge | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Ei ferch yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol |
| H.I. Jones | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Ei ferch-yng-nghyfraith yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Ei wyres yn gweithio yn Adran y Gyfraith |
| S.M. Allen | 7.1 - Fersiwn Drafft o Gynllun Cyflawni Pum Mlynedd - Adfywio a Datblygu Tai (2022-2027) | Aelod gwirfoddol o Fwrdd Cymdeithas Tai a grybwyllir yn yr adroddiad |
| D.C. Evans | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Ei wraig yn gweithio i'r Cyngor |
| B.A.L. Roberts | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Aelod o'r teulu'n gweithio i'r Awdurdod |
| P.M. Hughes | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Aelod o'r teulu'n gweithio i'r Awdurdod |
| G. John | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Aelod o'r teulu'n gweithio i'r Awdurdod |
| R. Evans | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Ei ferch yn gweithio yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd |
| M. Charles | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Ei chwaer yn gweithio i'r Awdurdod |
| W.S. Walters - ar ran yr holl swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfod | 5 – Datganiad Polisi Tâl 2022-23 | Yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod |
| W.S. Walters | 7.4 - Adolygiad o'r Ffioedd Etholiad sy'n daladwy yn Etholiadau'r Cyngor Sir ac Etholiadau Cynghorau Tref/Cymuned | Swyddog Canlyniadau |
| C. Moore | 7.4 - Adolygiad o'r Ffioedd Etholiad sy'n daladwy yn Etholiadau'r Cyngor Sir ac Etholiadau Cynghorau Tref/Cymuned | Bydd yn gweithio yn yr etholiadau |

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Cyhoeddodd y Cadeirydd yr ymweliadau/digwyddiadau canlynol yr oedd wedi'u mynychu'n ddiweddar/y byddai'n eu mynychu:-
  - 3 Mawrth - Pen-blwydd preswylydd yn Awel Tywi, Llandeilo yn 110 oed
  - 5 Mawrth - Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi Caerfyrddin
  - 8 Mawrth - Dathlu Diwylliant yn Theatr y Ffwrnes
  - 10 Mawrth - Gwobrau Chwaraeon Actif yn Theatr y Ffwrnes

- Rhoddodd yr Arweinydd, gyda chaniatâd y Cadeirydd, y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y sefyllfa bresennol o ran Pandemig Covid yn Sir Gaerfyrddin ac am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau yn ddiweddar o ran gwisgo gorchuddion wyneb a chadw pellter cymdeithasol. Roedd yn debygol y gellid llacio'r cyfyngiadau hynny ymhellach yn ddiweddarach ym mis Mawrth gan fod y Prif Weinidog, yn ei anerchiad diweddar, wedi datgan y byddai'r cyfyngiadau sy'n weddill yn cael eu dileu o 28 Mawrth 2022 pe bai'r sefyllfa'n parhau'n sefydlog

  Yna rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad pellach i'w anerchiad i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth ar y sefyllfa yn Wcráin a'i effaith ar ei thrigolion. Amlinellodd yr ymdrechion lleol i roi rhoddion i Wcráin a gwledydd cyfagos ac i'r amrywiol ffynonellau sydd ar gael i bobl wneud cyfraniadau ariannol i wahanol sefydliadau elusennol.

  Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor, yn yr un modd ag yr oedd wedi darparu cartrefi a diogelwch i bobl oedd yn ffoi rhag y rhyfeloedd yn Syria ac Afghanistan, unwaith eto yn paratoi i chwarae ei ran pan fydd Llywodraeth Cymru a Llywodraethu y DU yn galw arno i wneud hynny ar gyfer Wcreiniaid sy'n ffoi i'r DU.

  I gloi, dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn sefyll mewn undod â phobl Wcráin a phan ddaw'r amser bydd croeso cynnes iddynt yn Sir Gaerfyrddin a bydd cartref iddynt yma cyhyd ag y bo angen

## 4. PENNU TRETH Y CYNGOR AM FLWYDDYN ARIANNOL 2022/23

Cafodd y Cabinet adroddiad a oedd yn nodi'r manylion ariannol perthnasol o ran pennu'r Dreth Gyngor am flwyddyn ariannol 2022/2023, ynghyd â symiau'r Dreth Gyngor o ran gwahanol Fandiau Prisio'r Dreth Gyngor, fel yr oeddynt yn berthnasol i'r holl Gynghorau Cymuned a Thref unigol.

Nodwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn dwyn ynghyd ofynion cyllideb yr awdurdod a'r praeseptau ar gyfer Awdurdod yr Heddlu a'r Cynghorau Tref a Chymuned i symiau cyfunol y Dreth Gyngor mewn perthynas â bandiau prisio unigol y Dreth Gyngor.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor am gywiriad i nodyn 4(a) gan fod cyfanswm praeseptau'r Cyngor Cymuned a gynhwyswyd yn y £662,792,890 yn £7,000,517, yn unol â nodyn 4(f) ac nid £6,863,055, fel y nodwyd yn naratif nodyn 4(a)

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar y cywiriad uchod ac er mwyn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol, bod adroddiad ac argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ynghylch pennu'r Dreth Gyngor am flwyddyn ariannol 2022/23 yn cael eu mabwysiadu.**

## 5. DATGANIAD POLISI TALIADAU 2022/23

[NODER:

1. Roedd y Cynghorwyr L.R. Bowen, M. Charles, D.M. Cundy, T.A.J. Davies, E. Dole, D.C. Evans, J.S. Edmunds, R. Evans, S.J.G. Gilasbey, T.M. Higgins, P.M. Hughes, G. John, H.I. Jones, R. James, K. Madge a B.A.L. Roberts wedi datgan buddiannau yn yr eitem hon yn gynharach a gadawsant y cyfarfod;
2. Barnwyd bod gan bob swyddog a oedd yn bresennol fuddiant personol yn yr eitem hon a gadawsant y cyfarfod cyn iddi gael ei hystyried ac eithrio Rheolwr y Gwasanaethau Pobl a arhosodd yn y cyfarfod i ymateb i unrhyw gwestiynau a oedd yn codi ynghylch yr adroddiad a swyddogion a oedd yn hwyluso trefniadau gweddarlledu'r cyfarfod.
3. Gan fod yr Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd wedi datgan diddordeb yn yr eitem hon ac wedi gadael y cyfarfod, cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Pobl yr adroddiad ar ei ran)

Ar ran yr Aelod Cabinet dros Ddiogelu'r Cyhoedd, cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Pobl yr adroddiad a amlinellai bod rheidrwydd ar yr holl Awdurdodau Lleol, yn unol â darpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011, i baratoi Datganiad Polisi Tâl y mae'n rhaid cytuno arno a'i gyhoeddi erbyn 1 Ebrill bob blwyddyn. Roedd yn ofynnol i'r Datganiad gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ac roedd rhaid iddo bennu polisïau'r Awdurdod am y flwyddyn ariannol o ran cydnabyddiaeth ariannol ei Brif Swyddogion, cydnabyddiaeth ariannol y gweithwyr oedd yn ennill y symiau lleiaf, a'r cysylltiad rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i'w Brif Swyddogion ac i'w weithwyr nad oeddynt yn Brif Swyddogion.

Roedd Panel Ymgynghorol y Polisi Tâl, sy'n wleidyddol gytbwys, wedi cyfrannu at lunio'r Datganiad Polisi Tâl ac roedd ei argymhellion wedi'u cynnwys yn y ddogfen derfynol i'w chymeradwyo gan y Cyngor Sir.

Dywedwyd wrth y Cyngor fod gwybodaeth yn dal i gael ei diweddaru yn rhai o'r atodiadau, er enghraifft, y codiadau cyflog diweddar a byddai'r rheini'n cael eu diweddaru cyn cyhoeddi'r Datganiadau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflogau am 2022/23 yn unol ag Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011**.

## 6. YSTYRIED ARGYMHELLION Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

### 6.1. CYNLLUN GWEITHREDU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Atgoffwyd y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2021 (gweler cofnod 5), ei fod wedi penderfynu ymrwymo i fod yn 'Gyngor Amrywiol' a chymeradwyodd Ddatganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn ogystal, roedd wedi gofyn i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ddatblygu cynllun gweithredu cyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022. Yn unol â'r penderfyniad hwnnw, derbyniodd y Cyngor y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth Drafft i'w ystyried (y manylwyd arno yn Atodiad A o'r adroddiad) gyda'r amcanion ynddo yn seiliedig ar y rhai a awgrymwyd gan

Lywodraeth Cymru. Nododd hefyd y gellid ychwanegu amcanion ychwanegol, os dymunir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth.**

### 6.2. ADRODDIAD TERFYNOL GR?P GORCHWYL A GORFFEN PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - PROSES DDEMOCRATAIDD - FFYRDD NEWYDD O WEITHIO

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad terfynol Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch y Broses Ddemocrataidd - Ffyrdd Newydd o Weithio. Nododd fod y Grŵp wedi'i sefydlu i adolygu gofynion aelodau er mwyn pennu eu hanghenion wrth symud ymlaen â'r ffordd newydd o weithio o ran swyddogaeth y gwasanaethau democrataidd a'i fod wedi llunio 5 argymhelliad i'r Cyngor eu hystyried.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo adroddiad ac argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Ffyrdd Newydd o Weithio.**

## 7. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

### 7.1. ADFYWIO A DATBLYGU TAI - CYNLLUN CYFLAWNI PUM MLYNEDD (2022 - 2027)

(NODER: Roedd y Cynghorwyr H.A.L. Evans a S.M. Allen wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; fe ailddatganwyd y buddiant hwnnw a gadwasant y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried)

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2022 (gweler Cofnod 6), wedi ystyried Cynllun Cyflawni Pum Mlynedd - Adfywio a Datblygu Tai (2022-2027) a oedd yn nodi cynlluniau'r Awdurdod i helpu i adeiladu dros 2,000 o dai ychwanegol ar draws y Sir yn ystod y pum mlynedd nesaf. Pe bai'n cael ei fabwysiadu, byddai'r Cynllun yn adeiladu ar lwyddiant y cynlluniau darparu tai fforddiadwy presennol, yn cefnogi twf economaidd drwy fuddsoddi dros £300m mewn cymunedau ac yn cefnogi'n uniongyrchol y camau gweithredu yn y Cynllun Adfer Economaidd, gan gefnogi busnes, pobl a lleoedd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:-**

**“6.1 Cadarnhau y bydd y Cynllun Cyflawni - Adfywio a Datblygu Tai yn helpu i ddarparu dros 2,000 o dai i'w rhentu a'u gwerthu yn y Sir dros y pum mlynedd nesaf, gan ddiwallu anghenion tai, ysgogi adferiad a thwf economaidd, a chefnogi Egwyddorion Carbon Sero-net y Cyngor;**

**6.2 Cytuno bod yr awdurdod i gaffael tir ac adeiladau nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni - Adfywio a Datblygu Tai, ynghyd ag unrhyw dir a/neu adeiladau eraill a fyddai'n ychwanegu gwerth at flaenoriaethau a dyheadau’r Cyngor o ran Tai ac Adfywio, yn cael ei ddirprwyo i’r Pennaeth Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Tîm Strategol Tai ac**

**Adfywio;**

**6.3 Cytuno y byddai'r Cynllun yn chwarae rhan allweddol o ran cynyddu'r cyflenwad o dai rhent cymdeithasol yn ein cymunedau, gan gynnwys tai sy'n addas ar gyfer:**
- **Cartrefi anghenion cyffredinol;**
- **Llety arbenigol â chymorth i bobl ag anghenion cymhleth a;**
- **Llety hyblyg y gellir ei addasu'n hawdd i bobl hŷn**

**6.4 Cadarnhau y bydd datblygiadau deiliadaeth gymysg, sy'n cynnwys tai ar gyfer rhent cymdeithasol, perchentyaeth cost isel a gwerthu ar y farchnad agored yn cael eu cefnogi trwy'r cynllun cyflawni hwn, gan greu cymunedau cytbwys, cryf a gwydn;**

**6.5 Cytuno y byddai'r Cynllun yn cynnwys darparu atebion o ran tai deiliadaeth gymysg hyblyg, arloesol newydd sy'n diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio;**

**6.6 Cytuno y byddai'r cynllun yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno safleoedd adfywio strategol y Cyngor trwy ddarparu mwy o dai i'w rhentu a'u gwerthu, gan gynnwys:**
- **Adfywio canol trefi;**
- **Trefi a phentrefi gwledig;**
- **Pentref Gwyddor Bywyd Pentre Awel a;**
- **Tyisha.**

**6.7 Cadarnhau y byddai'r tai a gefnogir trwy'r cynllun yn cael eu darparu gan ddefnyddio ystod o ddulliau cyflawni sy'n cynnig hyblygrwydd, graddfa a chyflymder;**

**6.8 Cytuno y byddai'r gwaith o ddarparu tai ledled y sir yn y cynllun yn dilyn yr ardaloedd gweithredu tai fforddiadwy, gan adeiladu wardiau yn y Sir yn ardaloedd nodedig, sy'n cysylltu'n ddaearyddol ac yn ddiwylliannol."**

## 7.2. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN Y CAMAU NESAF A CHYTUNDEB CYFLAWNI DIWYGIEDIG

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror, 2022 (gweler Cofnod 9), wedi ystyried adroddiad diweddaru ynghylch cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig ac, yn arbennig, effaith cyfres o ffactorau, materion a chanllawiau ar gynnydd a/neu gynnwys y Cynllun yn y dyfodol. Wrth fanylu ar y meysydd hynny, cynigiodd yr adroddiad gyfres o gamau nesaf a gofynnodd am gymeradwyo'r argymhellion i baratoi CDLl Adneuo Diwygiedig pellach i fynd i'r afael â'r goblygiadau sy'n deillio o'r materion a nodwyd a'u lliniaru a sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n weithdrefnol ac yn 'gadarn' gan alluogi ei fabwysiadu.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:-**

**"9.1 Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion ddiwygio amserlen y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig a chytuno ar ei gynnwys gyda Llywodraeth Cymru;**

**9.2 Ystyried cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r angen i baratoi ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo cyfunol a dogfennau cysylltiedig;**

**9.3 Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ar y cyd â'r Aelod Cabinet dros Gynllunio sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Tywi, datblygu ei gylch gwaith a pharatoi Cynllun Rheoli Maetholion;**

**9.4 Ar y cyd â chyrff cyhoeddus allweddol eraill, ymuno â'r bwrdd aelodaeth ar gyfer Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Teifi, Afon Cleddau ac Afon Gwy"**

## 7.3. ADOLYGIAD O BOLISI HAPCHWARAE

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, 2022 (gweler Cofnod 7) wedi ystyried Polisi Hapchwarae diwygiedig arfaethedig a oedd yn adlewyrchu canlyniadau'r broses ymgynghori ac adolygu ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chyfarwyddyd perthnasol. Roedd Pwyllgor Trwyddedu'r Cyngor wedi ystyried yr adroddiad ac wedi penderfynu'n unfrydol argymell i'r Cabinet ei fod yn cael ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:-**

**"Cymeradwyo'r Polisi Hapchwarae diwygiedig"**

## 7.4. ADOLYGIAD O'R FFIOEDD ETHOLIAD SY'N DALADWY YN ETHOLIADAU'R CYNGOR SIR AC ETHOLIADAU CYNGHORAU TREF/CYMUNED

(NODER: Roedd W.S. Walters a C. Moore wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganwyd y buddiant hwnnw a gadawsant y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried)

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, 2022 (gweler Cofnod 13) wedi ystyried adroddiad ynghylch lefel y ffioedd sy'n daladwy i'r Swyddog Canlyniadau mewn perthynas â'r etholiadau lleol sydd i ddod

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinetv:-**

**"13.1 bod y ffioedd sy'n daladwy i'r Swyddog Canlyniadau, sy'n cynnwys taliadau i'r rhai sy'n ymgymryd â rôl Dirprwy Swyddogion Canlyniadau a phersonél allweddol eraill sy'n ymwneud â chynllunio a goruchwylio etholiadau'r Cyngor Sir a Chynghorau Tref / Cymuned, fel a ganlyn:**

**a) £170.00 am bob etholiad sy'n cael ei ymladd;**
**b) £56.61 am bob etholiad nad yw'n cael ei ymladd;**

**13.2 Awdurdodi'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Canlyniadau'r Cyngor, i wneud y canlynol:**

**a) gwneud trefniadau ar gyfer cyflogi pobl i gynorthwyo â'r Etholiadau Lleol;**
**b) pennu lefel y ffioedd a'r taliadau i'r rhai a gyflogir ar ddyletswyddau'r Etholiad, cyn belled â bod y cyfanswm sy'n daladwy o fewn yr adnoddau a bennwyd i dalu am gost yr etholiadau hyn;**

**13.3 nodi y bydd unrhyw gostau ar gyfer etholiadau Cynghorau Tref/Cymuned yn cael eu had-dalu'n llawn".**

### 7.5. RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I NEWID YSTOD OEDRAN YSGOL SWISS VALLEY O 4-11 I 3-11

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 (gweler Cofnod 9) wedi ystyried adroddiad ar gynigion i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn y Swistir o 4-11 i 3-11.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:-**

**"O fod yn fodlon nad oedd unrhyw gynigion perthnasol eraill; a bod y cynnig statudol wedi bod yn destun ymgynghoriad a gafodd ei gyhoeddi yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, ac ar ôl ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori, ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law mewn ymateb i'r Hysbysiad Statudol, argymell i'r Cyngor Sir fod y cynnig yn cael ei weithredu fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol"**

### 7.6. RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I NEWID NATUR Y DARPARIAETH YN YSGOL Y FELIN

(NODER: Roedd y Cynghorydd B. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw ac arhosodd yn cyfarfod)

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, 2022 (gweler Cofnod 8), wedi ystyried adroddiad gwrthwynebu a oedd yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a oedd wedi dod i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol iddynt ar gynigion i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Felin i addysg cyfrwng Cymraeg o 1 Medi 2022.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:-**

**"O fod yn fodlon nad oedd unrhyw gynigion perthnasol eraill; a bod y cynnig statudol wedi bod yn destun ymgynghoriad a gafodd ei gyhoeddi yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, ac ar ôl ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori, y gwrthwynebiadau ac unrhyw ymatebion i'r hysbyseb yn yr adroddiad gwrthwynebu, argymell i'r Cyngor Sir fod y cynnig yn cael ei weithredu fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol".**

### 7.7. RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I AD-DREFNU AC AILFODELU GWASANAETHAU CYMORTH YMDDYGIAD YN YSGOL RHYDYGORS I WELLA'R DDARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC.

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, 2022 (gweler cofnod 10) wedi ystyried adroddiad ar gynigion i ad-drefnu ac ailfodelu'r Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad yn Ysgol Rhyd-y-gors er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:-**

**“ O fod yn fodlon nad oedd unrhyw gynigion perthnasol eraill; a bod y cynnig statudol wedi bod yn destun ymgynghoriad a gafodd ei gyhoeddi yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, ac ar ôl ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori, ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law mewn ymateb i'r Hysbyseb Statudol, argymell i'r Cyngor Sir fod y cynnig yn cael ei weithredu fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol".**

## 7.8. PENTRE AWEL

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022 (gweler Cofnod 14) wedi ystyried adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Bentre Awel, gan gynnwys caffael Contractwr ar gyfer Parth 1. Roedd yr adroddiad yn nodi:-

- cynnydd o ran dylunio Parth 1 a chost fwyafswm y gwaith adeiladu;
- cynnydd o ran sicrhau tenantiaid ar gyfer Parth 1;
- cynnydd o ran datblygu dyluniad Parth 3;
- cynnydd cysylltiedig gan gynnwys rhwydweithio ag ysgolion a pholisi'r Trydydd Sector.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:-**

**“14.1 nodi adroddiad y broses a gynhaliwyd i ddatblygu cam cyntaf y contract dylunio ac adeiladu dau gam i gyflawni Parth 1 Pentre Awel;**

**14.2 derbyn y gost fwyafswm (£14.2m) ar gyfer y gwaith adeiladu a ddarperir gan Bouyges UK a dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Prif Weithredwr gytuno ar yr amlen gost derfynol a chadarnhau fforddiadwyedd mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau;**

**14.3 nodi'r cynnydd o ran sicrhau cytundebau tenantiaeth a dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol gytuno i symud ymlaen i'r gwaith adeiladu o ran cael sicrwydd addas o incwm rhent a nodi bod y gwaith Arloesi a Datblygu Busnesau, ac felly'r lle cragen a chraidd sy'n cael ei ddatblygu, yn cael ei wneud cyn y cynlluniau terfynol ac felly mewn perygl;**

**14.4 cymeradwyo'r polisi sy'n nodi'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu ar gyfer cynnwys sefydliadau'r Trydydd Sector ym Mhentre Awel;**

**14.5 nodi'r cynnydd ar draws parthau eraill a thrafodaethau ac effaith cysylltiedig tu hwnt i ffiniau uniongyrchol y prosiect.”**

**<u>HYD Y CYFARFOD</u>**

Ar ôl ystyried yr eitem hon, tynnwyd sylw'r Cyngor at Reol 9 o'r Weithdrefn Gorfforaethol - 'Hyd Cyfarfod' - ac at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers bron i dair awr. Felly:

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL atal Rheol 9 o'r Weithdrefn Gorfforol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y materion oedd yn weddill ar yr agenda.**

## 8. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y:-.

### 8.1. 14 CHWEFROR 2022

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2022.**

### 8.2. 21 CHWEFROR 2022

(NODER: Roedd y Cynghorydd S.J.G Gilasbey wedi datgan buddiant yng nghofnod 7 y cyfarfod; ailddatganodd y buddiant hwnnw ac arhosodd yn cyfarfod)

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Chwefror, 2022.**

### 8.3. 28 CHWEFROR 2022

(NODER: Roedd y Cynghorydd S.J.G Gilasbey wedi datgan buddiant yng nghofnod 7 y cyfarfod; ailddatganodd y buddiant hwnnw ac arhosodd yn cyfarfod)

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Chwefror, 2022.**

## 9. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 10. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-

### 10.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ALUN LENNY I CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR

"Bydd y 23ain o Fawrth yn nodi dwy flynedd ers y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf, cyfnod a welodd newidiadau sylweddol i’n ffordd o fyw a gweithio.

Wrth inni symud ymlaen, a allai’r Arweinydd ddweud beth gall trigolion a busnesau Sir Gaerfyrddin ei ddisgwyl yn y cyfnod nesaf o ran adferiad a chymorth?

**Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole - Arweinydd y Cyngor:-**

Diolch yn fawr Alun ac er bod y cwestiwn yn dod ar ddiwedd y cyfarfod, mae'n amserol iawn ac rwy'n barod iawn i'w ateb. Dywedais yn y diweddariad ar y dechrau ei bod yn ymddangos bod y pandemig hwn wedi cilio rhywfaint, ond, wrth gwrs, bydd ei effaith gyda ni am gryn dipyn o amser. Bu llawer o ergydion

economaidd o ganlyniad i'r sefyllfa yn Wcráin. Mae cost tanwydd yn cynyddu yn barod, ac mae Yswiriant Gwladol yn mynd i gynyddu hefyd. Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i Sir Gaerfyrddin allu lliniaru'r effaith economaidd, gwnaethom ddatblygu cynllun adfer sef strategaeth fanwl iawn o ran sut y gallai economi'r sir wella cyn gynted ag y bo modd o effeithiau Covid a chefais gyfle i rannu'r diweddariad hwnnw yng nghyfarfod y Cabinet yr wythnos diwethaf a dyma rai o'r diweddariadau:-

- Nododd y Cynllun Adfer Economaidd fod dros 800 o swyddi eisoes wedi'u creu a bron i 700 o swyddi wedi'u diogelu wrth i ni roi'r cynllun adfer ar waith.
- Mae tîm datblygu economaidd y Cyngor wedi ymgysylltu ag ymhell dros 2,000 o fusnesau lleol ac wedi darparu cymorth hyfforddiant i tua 250 o bobl yn barod.
- Un o'r meysydd allweddol o ran ymyrraeth sydd wedi'i dargedu yw cefnogi pobl i wella sgiliau digidol fel bod ganddynt well rhagolygon cyflogaeth, ac mae dros 200 o bobl wedi cael yr hyfforddiant hwnnw.
- Dros y 18-24 mis nesaf, bydd y cyngor yn darparu cymorth cyflogaeth i ryw 3,000 o bobl, gan helpu 850 o unigolion eraill i gael cyflogaeth amser llawn. Byddwn hefyd yn manteisio i'r eithaf ar y manteision cymunedol sy'n deillio o gynlluniau datblygu megis cynllun Pentre Awel gwerth miliynau o bunnoedd, yr ydym newydd gyfeirio ato, sef y datblygiad cyntaf o'i gwmpas a'i faint yng Nghymru a fydd yn cynnig darpariaeth o'r radd flaenaf ym maes ymchwil meddygol a gofal iechyd gan gefnogi ac annog pobl i fyw bywydau egnïol ac iach, gan ddarparu cyfleoedd cadwyn gyflenwi i fusnesau lleol ynghyd â recriwtio, hyfforddiant a lleoliadau phrofiad gwaith.
- Amcangyfrifir y bydd 1850 o swyddi'n cael eu creu o'r datblygiad cyfan a gynigir, a bydd rhwng 750 a 950 o swyddi'n cael eu priodoli'n uniongyrchol i gam 1. Bwriedir cwblhau'r gwaith adeiladu cam 1 yn gynnar yn 2024, sef y ganolfan hamdden newydd ar gyfer Llanelli.
- Ar hyn o bryd rydym yn cynnig grantiau cymorth busnes a grantiau datblygu eiddo yn ogystal â grantiau ynni adnewyddadwy busnes. Mae cyfanswm y cymorth grant hwn yn cyfateb i tua £6m, a fydd yn sicrhau buddsoddiad pellach o £5m.
- Mae'r cyngor hefyd wedi ymrwymo i gyflawni 13 o brosiectau mawr, gan fuddsoddi mwy na £140miliwn, gan greu a darparu ar gyfer 1250+ o swyddi a darparu cyfleoedd i fusnesau lleol dyfu.
- Fel yr ydym wedi'i ddweud, rydym yn cefnogi'r gwaith o ddarparu dros 2,000 o dai ychwanegol, gan gynnwys byngalos, ar draws y Sir dros y pum mlynedd nesaf, gan hyrwyddo twf economaidd drwy fuddsoddi dros £300 miliwn yn ein cymunedau. Amcangyfrifir y bydd y lefel hon o fuddsoddiad yn diogelu tua 700 o swyddi dros y 5 mlynedd nesaf.
- Mae gennym gynlluniau adfer ar waith ar gyfer 3 prif dref y Sir – Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman – sy'n tynnu sylw at faterion a chyfleoedd allweddol i ddarparu fframwaith cyflawni o ymyriadau penodol ar gyfer y canol trefi unigol.
- Datblygwyd cynlluniau twf ar gyfer ein 10 tref marchnad hefyd ac rydym wedi ymrwymo £1m o gyllid cyfalaf i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau wedi'u blaenoriaethu ar draws y deg tref hynny
- Mae'r Cyngor hwn yn arwain ar raglen Seilwaith Digidol Dinas-ranbarth Bae Abertawe sy'n costio £55 miliwn, yr amcangyfrifir y bydd gwerth £318 miliwn

i'r economi ranbarthol dros y 15 mlynedd nesaf ac yn dod ag amcangyfrif o £30m o fewnfuddsoddi i ni yn y 5 mlynedd nesaf.

- Rydym hefyd yn arwain ar Raglen Sgiliau a Thalentau Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n anelu at greu 3,000 o brentisiaethau ledled y rhanbarth.
- Rydym yn cydnabod, wrth gwrs, na allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain - bydd hyn yn golygu uchelgais ac ymrwymiad gan bawb yn Sir Gaerfyrddin - o bartneriaid a sefydliadau yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y sector preifat, i fusnesau lleol a phobl leol. Rydym yn gobeithio'n fawr y gallwn ni i gyd weithio i wneud hynny i ddatblygu Sir Gaerfyrddin.
- Rydym yn benderfynol o fanteisio ar bob cyfle i gyflymu twf Sir Gaerfyrddin a sicrhau'r llwyddiant economaidd y gall Sir Gaerfyrddin ei gyflawni, a'i haeddu. Mae hyn yn cynnwys manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i dynnu cyllid allanol ychwanegol i lawr, gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ychwanegu gwerth at weithgarwch sydd eisoes wedi'i gynllunio. Er enghraifft, yn yr hydref, croesawodd yr Awdurdod y cyhoeddiadau gan Lywodraeth y DU yn nodi ei fod wedi sicrhau bron i £20m, ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, gan greu dau hwb yng nghanol y dref a £16.7m arall ar gyfer Menter Dyffryn Tywi. Bydd y ddau yn cael eu hariannu drwy rownd gyntaf y Gronfa Codi'r Gwastad. Croesawodd yr Awdurdod hefyd £2.97m o gyllid pellach gan y Gronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys uwchsgilio, cymorth busnes a datblygu canol trefi – a bydd pob un ohonynt yn cyfrannu'n fawr at adferiad economaidd Sir Gaerfyrddin.

Diolch am y cwestiwn Alun. Rwyf wir yn ei werthfawrogi.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Alun Lenny:-**
Diolch i chi Arweinydd am yr ateb manwl hwnnw. Rydych eisoes wedi manylu ar y datblygiad rhagorol ym Mhentre Awel. Datblygiad a gafodd ei atal gan aelodau Llafur yn ystod y broses, a oedd am ei 'alw i mewn' ar y pryd ond, mae hyn yn rhan o raglen gyfalaf pum mlynedd y Cyngor sy'n adlewyrchu uchelgais y Weinyddiaeth i barhau â'r rhaglen adfywio ar gyfer Sir Gaerfyrddin. A allwch chi ddweud rhywfaint fwy wrthym Arweinydd?

**Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole - Arweinydd y Cyngor:-**
Ie, diolch Alun. Gallaf. Rwy'n falch iawn o wneud hynny ac yn hyderus iawn o gyflwyno rhaglen uchelgeisiol iawn. Mae hynny'n rhywbeth sydd wedi diffinio'r weinyddiaeth hon o'r diwrnod cyntaf ac, roedd yn flaenoriaeth inni, ac mae wedi'i nodi'n gwbl glir ac wedi'i rhoi ar waith drwy gydol y weinyddiaeth. Yr ewyllys i fentro ac i symud ymlaen â'r cynlluniau. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at rai o'r cynlluniau adfywio a oedd yn y rhaglen gyfalaf honno ac mae yna mwy na hynny, er enghraifft, y cae 3G yng Nghanolfan Hamdden Dyffryn Aman a'r ysgolion yn Rhydaman a Llanelli.

Yng nghyfarfod y Cyngor yr wythnos diwethaf, byddwch yn cofio y gwnaethom bleidleisio ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2022/23 hyd at 2026/27. Rhaglen uchelgeisiol iawn fel y dywedwch ond un rydym yn hyderus iawn y byddwn yn ei chyflawni. Rwy'n sylweddoli efallai fod graddfa ac uchelgais y rhaglen gyfalaf yn codi ofn ar rai aelodau o'r wrthblaid. Yn eu dychryn ddigon y byddent yn pleidleisio yn ei herbyn. Dyna a wnaethant, yn erbyn y rhaglen gyfalaf a oedd yn cynnwys canolfan hamdden yn Llanelli, ym Mhentre Awel, yn erbyn buddsoddiadau mewn seilwaith, chwaraeon a hamdden. (Mae'n ddrwg gen i, mae pobl yn siarad ar fy

nhraws) Rwy'n cyfeirio at y rhaglen gyfalaf a gafodd ei gwrthwynebu, a oedd yn cynnwys pleidleisio yn erbyn rheoli gwastraff, y seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus, yr ysgolion a gallwn i fynd ymlaen, ond ni wnaf, oherwydd nid wyf am achosi unrhyw embaras pellach i aelodau'r Grŵp Llafur.

Diolch Alun am y cwestiwn ac i'r Cadeirydd am eich amynedd. Rwyf wir yn ei werthfawrogi.

## 11. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar yr agenda ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

Ar ôl i'r Eitem hon ddod i ben, rhoddwyd cyfle i'r Prif Weithredwr, Arweinwyr Grwpiau a'r Cadeirydd fyfyrio ar y pum mlynedd diwethaf heriol a wynebwyd gan y Cyngor. Mynegwyd dymuniadau gorau hefyd i'r aelodau hynny sy'n ceisio cael eu hailethol a'r rhai nad oeddent yn sefyll.

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

## CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 25 MAI 2022

**YN BRESENNOL:** Cadeirydd y llynedd a'r cyn-Gynghorydd J.E. Williams

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| K.V. Broom | J.M. Charles | P. Cooper | D.M. Cundy |
| C.A. Davies | B. Davies | C. Davies | G. Davies |
| K. Davies | L. Davies | S.L. Davies | T. Davies |
| L.D. Evans | N. Evans | R.E. Evans | W.T. Evans |
| S. Godfrey-Coles | J.P. Hart | J.K. Howell | P.M. Hughes |
| J.D. James | R. James | G.H. John | D. Jones |
| H. Jones | A. Leyshon | D. Nicholas | M. Palfreman |
| B.D.J. Phillips | B.A.L. Roberts | D. Thomas | E.G. Thomas |
| G.B. Thomas | M. Thomas | J. Tremlett | F. Walters |
| D.E. Williams | | | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | L.R. Bowen | M.D. Cranham | S.A. Curry |
| A. Davies | W.R.A. Davies | T.A.J. Davies | H.L. Davies |
| L.M. Davies | M. Donoghue | A. Evans | D.C. Evans |
| H.A.L. Evans | A.D. Harries | T.M. Higgins | P. Hughes Griffiths |
| M. James | J.P. Jenkins | B.W. Jones | A.C. Jones |
| A. Lenny | M.J.A. Lewis | N. Lewis | K. Madge |
| A.G. Morgan | D. Owen | D. Price | E. Rees |
| S.L. Rees | E.M.J.G. Schiavone | J. Seward | H.B. Shepardson |
| E. Skinner | R. Sparks | A. Vaughan Owen | P.T. Warlow |
| J. Williams | | | |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters, Prif Weithredwr;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o bell: 10.00 yb - 12.00 yp**

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G.R. Jones.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. **MATERION PERSONOL / CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD YMADAWOL**
Croesawodd y cyn-Gynghorydd Eirwyn Williams, sef cadeirydd y llynedd, westeion nodedig, Cynghorwyr, staff a ffrindiau i'r cyfarfod. Soniodd am ei flwyddyn yn y swydd a'r digwyddiadau a'r dathliadau roedd wedi'u mynychu gyda'i gydymaith, Mrs Joyce Williams. Diolchodd i Is-gadeirydd y llynedd, y cyn-Gynghorydd Ken Lloyd, a'i gydymaith, Mrs Katherine Lloyd, am eu cefnogaeth a gwahodd y cyn-Gynghorydd Lloyd i ddweud ychydig eiriau.

Talodd Is-gadeirydd y llynedd, y cyn-Gynghorydd Ken Lloyd, deyrnged i Gadeirydd y llynedd, y cyn-Gynghorydd J.E. Williams a'i gydymaith, Mrs Joyce Williams, a dymunodd yn dda i'r Darpar Gadeirydd a'r Darpar Is-gadeirydd yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Diolchodd i'r holl Gynghorwyr a staff am eu cefnogaeth nid yn unig yn ystod ei gyfnod fel Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ond hefyd dros y 5 mlynedd diwethaf. Yn olaf, talodd deyrnged i'w gydymaith, Mrs Katherine Lloyd, a diolchodd iddi'n ffurfiol am ei holl gefnogaeth.

Diolchodd Cadeirydd y llynedd i'r cyn-Gynghorydd Ken Lloyd am ei eiriau caredig a dymunodd ymddeoliad hapus iddo ef a Mrs Lloyd. Yna diolchodd i'r Prif Weithredwr am ei chyngor a'i harweiniad proffesiynol, ac i'r Cyfarwyddwyr, yn enwedig Chris Moore a oedd wedi cynorthwyo gyda gwaith codi arian y Cadeirydd, a staff yr awdurdod a oedd wedi cefnogi gwaith y Cadeirydd. Diolchodd i'w yrrwr, Jeff Jones, ac i Eira Evans am ei chefnogaeth broffesiynol a phersonol, wrth drefnu ei ddigwyddiadau a gofalu bod pob dim yn mynd yn hwylus bob amser. Talodd deyrnged i'w gydymaith, Mrs. Joyce Williams, a oedd wedi bod wrth ei ochr dros y 12 mis diwethaf a diolchodd yn ffurfiol iddi am ei chefnogaeth. Yn olaf, dymunodd yn dda i'r Darpar Gadeirydd, y Cynghorydd Rob Evans, a'i gydymaith, y Cynghorydd Nysia Evans, yn ei flwyddyn yn y swydd.

4. **ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2022-23**

**Cafodd ei gynnig gan Gadeirydd y llynedd, y cyn-Gynghorydd J.E. Williams, a'i eilio gan y Cynghorydd R. James a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd R. Evans yn cael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2022/23.**

Bu i'r cyn-Gynghorydd J.E. Williams longyfarch y Cynghorydd Evans ar gael ei ethol.

Gwnaeth y Cynghorydd Rob Evans ei ddatganiad yn derbyn y swydd, ac fe'i harwisgwyd â'r Gadwyn Swyddogol.

Diolchodd y Cynghorydd Evans i'r holl Gynghorwyr am eu cefnogaeth wrth ei benodi'n Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at ei flwyddyn yn y swydd yn cynrychioli'r Cyngor. Talodd y Cynghorydd Evans

deyrnged hefyd i Gadeirydd y llynedd, y cyn-Gynghorydd J.E. Williams, a chyflwyno Crogdlws y cyn-Gadeirydd iddo.

Wedyn bu i gydymaith Cadeirydd y llynedd, Mrs Joyce Williams, gyflwyno ei Chadwyn Swyddogol i'r Cynghorydd Nysia Evans, a bu i'r Cynghorydd Nysia Evans gyflwyno Crogdlws cyn-gydymaith y Cadeirydd i Mrs Joyce Williams.

Talwyd teyrngedau hefyd i Gadeirydd y llynedd gan Arweinwyr Grŵp Plaid Cymru, y Grŵp Annibynnol, a'r Grŵp Llafur am y gwasanaeth rhagorol roedd wedi'i roi i'r Cyngor yn ystod ei flwyddyn yn y swydd.

Yn ogystal talodd y Prif Weithredwr deyrnged ar ran staff yr Awdurdod i Gadeirydd y llynedd a'i gydymaith (y cyn-gynghorydd Eirwyn Williams a Mrs Joyce Williams), a oedd wedi cyflawni'r rôl mewn modd proffesiynol dros ben gan fod yn hynod o weithgar a chefnogol i waith y Cyngor. Bu iddi longyfarch y Cadeirydd newydd a'i Gydymaith (y Cynghorydd Rob Evans a'r Cynghorydd Nysia Evans), a'r Is-gadeirydd newydd a'i Chydymaith (y Cynghorydd Louvain Roberts a Mrs Vanessa Rees) ar eu penodiadau a dymunodd flwyddyn hapus a llwyddiannus iawn iddynt yn y swydd.

**5. ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2022-23**

**Cafodd ei gynnig gan y Cynghorydd J. Tremlett, a'i eilio gan y Cynghorydd S. Davies a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd Louvain Roberts yn cael ei hethol yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2022/23.**

Arwisgwyd y Cynghorydd Louvain Roberts â'r Gadwyn Swyddogol gan y cyn Is-gadeirydd, Ken Lloyd, a gwnaeth ei datganiad derbyn swydd. Mynegodd yr Is-gadeirydd ei gwerthfawrogiad i'r Cyngor ar ei phenodiad.

Cyflwynwyd y Gadwyn Swyddogol i gydymaith yr Is-gadeirydd, Vanessa Rees, gan gydymaith y cyn Is-gadeirydd, Mrs. Katherine Lloyd.

Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Is-gadeirydd a'i Chydymaith ar eu penodiadau.

**6. ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cynghorydd Darren Price yn cael ei ethol yn Arweinydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Darren Price yn Arweinydd y Cyngor.**

**7. DERBYN ADRODDIAD ARWEINYDD Y CYNGOR YNGHYLCH PENODI CYNGHORWYR SY'N CAEL EU DEWIS I WASANAETHU AR Y CABINET**

Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi ystyried penodi aelodau i wasanaethu ar y Cabinet a rhoddodd wybod i'r Cyngor am y penodiadau canlynol i bob un o'r portffolios a nodwyd:-

| Cynghorydd | Portffolio |
|---|---|
| Linda Evans | Dirprwy Arweinydd a Chartrefi |
| Ann Davies | Materion Gwledig a Pholisi Cynllunio |
| Glynog Davies | Addysg a'r Gymraeg |
| Philip Hughes | Trefniadaeth a'r Gweithlu |
| Gareth John | Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth |
| Alun Lenny | Adnoddau |
| Edward Thomas | Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith |
| Jane Tremlett | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Aled Vaughan Owen | Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd |

**NODWYD.**

**8. DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2021-22**

Wrth gyflwyno ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor am y cyfnod 2021/22, soniodd yr Arweinydd am yr angen i ystyried beth oedd wedi cael ei gyflawni hyd yma a beth oedd angen ei wneud o hyd. Dywedodd ei fod o'r farn nad oedd monopoli ar syniadau da gan yr un plaid neu grŵp gwleidyddol, a bod cyfraniad gan bob aelod i'w wneud i weledigaeth gorfforaethol y cyngor. Soniodd am yr angen i gael systemau ar waith a oedd yn galluogi syniadau da, o ba ffynhonnell bynnag, i weld golau dydd. Dros y blynyddoedd nesaf roedd yn awyddus i ymgysylltu ag aelodau o bob rhan o'r siambr yn rheolaidd, i drafod eu syniadau a'u pryderon ac i gydweithio er lles pawb. Ychwanegodd ei fod eisoes wedi cyfarfod ag arweinwyr y Grŵp Llafur, y Grŵp Annibynnol Newydd a phob un o aelodau'r cyngor oedd heb gysylltiad pleidiol, i ddweud ei fod am ddatblygu perthynas agos a hwylus.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn ddymuniad gan bawb i weld Sir Gaerfyrddin yn ffynnu, ac mai dyletswydd pob aelod oedd dod o hyd i ffyrdd o gydweithio'n effeithiol er mwyn cyflawni amcanion a rennir.

Dywedodd mai dymuniad y weinyddiaeth oedd mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, yr argyfwng costau byw, adfywio economi a chanol trefi'r sir, darparu tai o safon, codi safonau addysgol, sicrhau cymorth gofal cymdeithasol i'r rhai mwyaf agored i niwed, gwella trafnidiaeth gyhoeddus, gweld strydoedd glanach a darparu gwasanaethau cyngor effeithiol o safon. Er bod y rhain yn faterion oedd yn bwysig i bob aelod a bod angen mynd ar eu trywydd gyda'n gilydd dros y 5 mlynedd nesaf, pwysleisiodd fod llawer eisoes wedi'i gyflawni a amlinellodd hynny fel a ganlyn:

**Adferiad Economaidd**

Roedd wedi cael ei gydnabod ar ddechrau'r pandemig bod angen cynllun adfer, yn ogystal â wynebu'r heriau oedd yn codi o ddydd i ddydd. Felly, roedd cynllun adfer cynhwysfawr wedi'i gyflwyno i gefnogi busnesau, pobl a chymunedau. Roedd Covid-19 wedi cael effaith ar yr economi leol, ond roedd arwyddion cadarnhaol o adferiad cyflymach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, ac roedd yr Arweinydd yn

teimlo'n hyderus y gallai economi Sir Gaerfyrddin wella i'r fath raddau fel ei bod hyd yn oed yn fwy cynhyrchiol nag o'r blaen.
Roedd y cynllun adfer economaidd yn uchelgeisiol iawn – ac roedd yn gwbl benderfynol o wneud popeth o fewn ei allu i gadw Sir Gaerfyrddin ar y trywydd iawn a pharhau ar ei thaith o ran twf. Roedd y cynllun yn gwireddu'r uchelgais i helpu busnesau i greu mwy na 3,000 o swyddi yn lle'r rhai a gollwyd yn ystod y pandemig: diogelu a chreu 10,000 o swyddi i gymryd lle'r rhai sydd mewn perygl a chreu tua 1,700 o swyddi newydd - yn ogystal â chefnogi miloedd o fusnesau lleol. Yr hyn sy'n allweddol i'r cynllun oedd cefnogi economi sylfaenol y sir a chefnogi pobl leol i ddatblygu sgiliau a thalent mewn meysydd wedi'u targedu er mwyn creu gweithlu lleol cryf a gwydn.
Byddai'r cynlluniau adfer canol trefi ar gyfer Rhydaman, Llanelli a Chaerfyrddin hefyd yn cael eu cyflawni - pob un ohonynt yn tynnu sylw at faterion allweddol, cyfleoedd ac ymyriadau penodol ar gyfer y trefi unigol. Roedd cynllun y deg tref yn dal i fynd o nerth i nerth gydag agenda ar gyfer newid ar gyfer pob un o'r trefi a nodwyd a'u cymunedau ehangach. Roedd gwaith ymgynghori a datblygu wedi digwydd ym mhob un o'r deg tref eisoes - yn Cross Hands; Cwmaman; Cydweli; Talacharn; Llandeilo; Llanymddyfri; Llanybydder; Castellnewydd Emlyn; Sanclêr; a Hendy-gwyn ar Daf.

Roedd yr ymgyrch i siopa'n lleol hefyd wedi parhau drwy 100% Sir Gâr. Mae ein siopau sionc wedi bod yn ymddangos ar draws y sir gan gynnig lle manwerthu am ddim i fusnesau annibynnol lleol. Rydym wedi gweld miloedd o bobl yn siopa'n lleol gan gadw'r arian yn Sir Gaerfyrddin.

**Bargen Ddinesig Bae Abertawe**
Yn ogystal â gwneud cynnydd ar gynllun Pentre Awel yn Llanelli, yr oeddid yn barnu y byddai'n darparu miloedd o swyddi i'r ardal, roedd Sir Gaerfyrddin yn parhau i elwa ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Roedd dau gynllun arwyddocaol yn y Fargen Ddinesig wedi'u lansio eleni. Roedd y Rhaglen Sgiliau a Thalentau wedi cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a byddai'n rhoi cyfleoedd i filoedd o bobl gael cyfleoedd sgiliau ac yn helpu busnesau i dyfu drwy ddatblygu gweithlu talentog ar draws Rhanbarth Bae Abertawe gan ganolbwyntio ar ddiwydiannau â galw mawr am weithwyr.

Roedd y Rhaglen Ddigidol Ranbarthol wedi ei chymeradwyo gan y llywodraeth eleni hefyd. Roedd y cynllun yn cael ei arwain gan Sir Gaerfyrddin ac amcangyfrifir ei fod yn werth £318 miliwn i'r rhanbarth yn y blynyddoedd i ddod. Roedd tair elfen i'r rhaglen, a'r disgwyl oedd y byddent i gyd o fudd i gymunedau Sir Gaerfyrddin:

- Lleoedd sydd â seilwaith digidol: Sicrhau bod gan ddinasoedd, trefi a pharciau busnes y rhanbarth fynediad cystadleuol at gysylltedd ffibr llawn;
- Gwledig: Gwella mynediad i fand eang yng nghymunedau gwledig y rhanbarth;
- Rhwydweithiau Diwifr y Genhedlaeth Nesaf: Paratoi'r ffordd i'r rhanbarth elwa ar 5G ac arloesedd y 'Rhyngrwyd Pethau'

**Gwledig (Mart)**
Roedd Mart Caerfyrddin wedi ailagor ym mis Mawrth eleni yn dilyn gwaith adnewyddu sylweddol a chreu mwy o swyddi gwledig. Roedd amaethyddiaeth yn rhan hanfodol o ddatblygu gwledig drwy gefnogi cyflogaeth, busnesau ategol, a gwasanaethau amgylcheddol. Ffermio yw asgwrn cefn bywyd cefn gwlad ac roedd

yr Arweinydd yn falch iawn bod y Cyngor wedi gallu cefnogi hyn a sicrhau dyfodol Mart Caerfyrddin.

**Ffyrdd a Seilwaith**
Y cyntaf o'i fath yng Nghymru, roedd hwb gwefru cyflym iawn wedi agor yn Cross Hands gan ddarparu pedwar gwefrydd cyflym 50KW ac un gwefrydd cyflym iawn 150KW. Byddai'r gwefrwyr yn darparu ffynhonnell ynni glân ac yn helpu i leihau'r defnydd o'r grid cenedlaethol. Roedd yr hwb yn ategu Strategaeth Seilwaith Cerbydau Trydan deng mlynedd y Cyngor a'i weledigaeth o ddatblygu'r seilwaith sydd ei angen i alluogi gweithwyr, preswylwyr, cymunedau, ymwelwyr, busnesau a sefydliadau eraill i ddefnyddio Cerbydau Trydan fel rhan o'u trefn ddyddiol.
Byddid yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo rhwydwaith o bwyntiau gwefru trydan i ddiogelu rhwydwaith trafnidiaeth y sir yn y dyfodol yn ogystal â chyfrannu at darged lleihau llygredd lleol a byd-eang.

Roedd gan y Cyngor wyth mlynedd cyn cyrraedd nod 2030 sef bod yn garbon sero net, ac roedd yr Arweinydd yn credu bod penodi aelod Cabinet penodol ar gyfer Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yn dangos yn glir y pwysigrwydd roedd y weinyddiaeth hon yn ei roi ar yr agenda benodol hon.

**Tai**
Eleni roedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Adfywio a Datblygu Tai, a nod y cynllun oedd darparu dros 2,000 o dai newydd a fforddiadwy ychwanegol ledled y sir dros y pum mlynedd nesaf. Fodd bynnag, roedd ein gweledigaeth a'n buddsoddiad nid yn unig yn ymwneud â thai, ond â chefnogi datblygiad cymunedau cynaliadwy cryf, llefydd lle roedd pobl eisiau byw a gweithio ynddynt, a rhoi cartrefi o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni ac yn fforddiadwy i bobl eu rhedeg. Barnwyd y byddai'r buddsoddiad yn cael effaith enfawr ar ysgogi'r economi, creu swyddi i bobl leol, a chefnogi adferiad y sir ar ôl y pandemig.
Roedd angen darparu'r tai iawn yn y mannau iawn, ac roedd hyn yn cynnwys darparu tai fforddiadwy i bobl ifanc a phobl oedran gweithio mewn ardaloedd gwledig a threfol, gan eu helpu i aros yn y sir, cynyddu nifer yr ymwelwyr yn nhrefi'r sir, a diogelu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant mewn ardaloedd gwledig. Roedd gwaith eisoes wedi dechrau ar brosiect Trawsnewid Tyisha a fyddai'n darparu cartrefi modern deiliadaeth gymysg newydd yn y gymuned.

**Gofal Cymdeithasol**
Byddai iechyd a llesiant pobl yn cael eu cefnogi ac roedd y timau gofal cymdeithasol yn parhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel o dan amgylchiadau anodd iawn. Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid lleol i wella Gofal Cymdeithasol yn barhaus ledled Sir Gaerfyrddin.

**Addysg**
Er mwyn sicrhau bod ein cymunedau yn y dyfodol yn gymunedau bywiog a'n heconomi yn y dyfodol yn economi ffyniannus, byddid yn parhau i fuddsoddi mewn darparu'r addysg orau bosibl i blant. Er mwyn cefnogi'r weledigaeth hon, roedd strategaeth ddeng mlynedd uchelgeisiol wedi cael ei lansio a oedd yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer addysg y dyfodol yn Sir Gâr. Roedd y cynllun yn nodi dyheadau'r cyngor ar gyfer dysgwyr a staff am y 10 mlynedd nesaf.
Roedd y strategaeth hefyd yn cynnwys ymrwymiad i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion fel eu bod yn addas ar gyfer dysgu ac addysgu'r 21ain ganrif, ac i gynnig addysg ddwyieithog o safon uchel.
Hyd yn hyn, roedd Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor wedi buddsoddi dros

£300 miliwn mewn ysgolion ar draws Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys adeiladu 12 ysgol gynradd newydd, dwy ysgol uwchradd newydd, a 48 o brosiectau ailwampio a helaethu o bwys, er budd mwy na 16,000 o blant ledled y sir. Roedd ysgol newydd wedi agor ym Mhump-hewl yn ddiweddar, yn dilyn buddsoddiad o £4.5 miliwn. Roedd swm tebyg wedi cael ei fuddsoddi i drawsnewid Ysgol Llangadog a £4.3m ar Ysgol Rhys Pritchard. Roedd gwaith hefyd wedi dechrau ar adeiladu ysgol gynradd newydd ym Mhen-bre gyda buddsoddiad o £8.25 miliwn.

**Hamdden**
Roedd y pandemig wedi rhoi sylw i iechyd a llesiant ac wedi arwain at fuddsoddi yng nghyfleusterau Hamdden y Sir.
Roedd Canolfan Hamdden Dyffryn Aman eisoes wedi elwa ar fwy na £600,000 o waith uwchraddio y tu mewn i'r adeilad, ac yn gynharach eleni roedd ymrwymiad wedi bod i ddatblygu'r cae pob tywydd 3G a chyfleusterau athletau gwell.
Roedd gwelliannau mawr wedi'u cwblhau hefyd yng Nghanolfan Hamdden Castellnewydd Emlyn, a bron blwyddyn yn ôl roedd canolfan hamdden newydd wedi agor ar hen safle Ysgol Pantycelyn yn Llanymddyfri, gan ddod â champfa o'r radd flaenaf, neuadd chwaraeon, stiwdio ddawns a chyfleusterau cymunedol i'r ardal, yn ychwanegol at y pwll nofio presennol. Dywedodd yr Arweinydd fod y weinyddiaeth hon yn benderfynol o sicrhau buddsoddiad parhaus mewn cyfleusterau hamdden ledled y sir.

**Edrych ymlaen**
Dywedodd yr Arweinydd fod llawer i edrych ymlaen ato. Yn gynharach eleni roedd prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Tywi wedi derbyn £16.7 miliwn fel rhan o gronfa Ffyniant Bro newydd Llywodraeth y DU. Byddai'r prosiect yn creu llwybr cerdded a beicio 20km oddi ar y ffordd rhwng Caerfyrddin a Llandeilo wrth ochr Afon Tywi gan fynd drwy olygfeydd godidog a heibio i gestyll, parciau gwledig ac ystadau hanesyddol yn ogystal ag atyniadau gan gynnwys Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru a Gerddi Aberglasne.
I gloi, dywedodd yr Arweinydd mai cipolwg yn unig oedd ei adroddiad ar y gwaith roedd y cyngor hwn yn ei wneud mewn cynifer o feysydd i geisio gwella bywydau pobl Sir Gaerfyrddin. Fe ychwanegodd mai'r dasg yn awr oedd adeiladu ar y sylfeini cadarn hynny a gwireddu'r uchelgeisiau ar gyfer y sir hon. Roedd yn edrych ymlaen at weithio gyda'r holl aelodau dros y 5 mlynedd nesaf er mwyn gwneud hynny a diolchodd i'r aelodau.

Cafodd Arweinwyr y Grŵp Annibynnol a'r Grŵp Llafur gyfle i wneud sylwadau ar adroddiad yr Arweinydd.

**PENDERFYNWYD nodi Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd ar gyfer 2021/22.**

**9. AELODAETH PWYLLGORAU CRAFFU, PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO A PHWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR A PHENODI AELODAU I WASANAETHU ARNYNT**
Bu'r Cyngor yn ystyried aelodaeth y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill ac aelodaeth y pwyllgorau hynny.

Dywedodd y Cadeirydd fod sedd wag ar y Pwyllgor Cynllunio erbyn hyn i aelod heb gysylltiad pleidiol, gan nad oedd y Cynghorydd Michael Cranham yn cymryd y sedd, a bod enw'r Cynghorydd Fiona Walters wedi cael gyflwyno gan y Grŵp Annibynnol ar gyfer un o'r ddwy sedd Annibynnol ar y Pwyllgor Craffu - Gofal

Cymdeithasol ac Iechyd. Dywedwyd, gan na chynigiwyd unrhyw enwebiadau i'r ddwy sedd wag hyn yn y cyfarfod, byddai enwebiadau ar gyfer pob sedd wag yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol i'w cadarnhau.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**9.1 cadarnhau bod 168 o seddi yn cael eu dyrannu ar y Cyngor newydd i'w rhannu'n 67 Craffu a 101 o seddi rheoleiddiol a seddi eraill;**

**9.2 cymeradwyo aelodaeth y pwyllgorau fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd a phenodi aelodau i Bwyllgorau Rheoleiddio, Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau Eraill fel y nodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad neu y rhoddwyd gwybod yn y cyfarfod.**

## 10. PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU / PANELAU CANLYNOL Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2022-2023

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 1.1 (n), rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r enwebiadau oedd wedi dod i law ar gyfer penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau am Flwyddyn y Cyngor 2022/23.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

**PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac yn Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu, a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2022/23:-**

| PWYLLGOR / PANEL | CADEIRYDD | IS-GADEIRYDD |
|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio | Y Cynghorydd D.M. Cundy | Y Cynghorydd B.W. Jones |
| Y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant | Y Cynghorydd C. Jones | Y Cynghorydd S.M. Allen |
| Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd | Y Cynghorydd J.D. James | Y Cynghorydd K. Davies |
| Y Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau | Y Cynghorydd A.G. Morgan | Y Cynghorydd K.V. Broom |
| Y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Y Cynghorydd H.A.L. Evans | I'w gadarnhau |
| Pwyllgor Apêl | Y Cynghorydd J.K. Howell | Y Cynghorydd L. Davies |
| Pwyllgor Penodi A – Cyfarwyddwyr | Y Cynghorydd D. Price | Y Cynghorydd S.M. Allen |
| Pwyllgor Penodi B - Penaethiaid Gwasanaeth | Y Cynghorydd J. Tremlett | Y Cynghorydd D. Price |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | Y Cynghorydd L. Davies | Y Cynghorydd W.T. Evans |
| Y Pwyllgor Trwyddedu | Y Cynghorydd J.M. Charles | Y Cynghorydd D. Phillips |
| Pwyllgor Penodi Aelodau | Y Cynghorydd J. Lewis | Y Cynghorydd W.R.A. Davies |
| Y Pwyllgor Cynllunio | Y Cynghorydd W.T. Evans | Y Cynghorydd C. Jones |
| Y Panel Adolygu Tai | Y Cynghorydd B.W. Jones | Y Cynghorydd G.B. Thomas |
| Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed | Y Cynghorydd D.E. Williams | Heb fod yn ofynnol |

**11. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R CYFANSODDIAD**

Atgoffwyd y Cyngor o'r gofyniad iddo adolygu ei Gyfansoddiad yn flynyddol a'i fod, fel rhan o'r broses honno, wedi sefydlu Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad [CRWG] i gyflwyno unrhyw newidiadau a argymhellir.

Dywedwyd bod Gweithgor Adolygu Cyfansoddiad y Cyngor blaenorol wedi argymell y dylai'r Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol, ystyried adroddiad ar y posibilrwydd o benodi aelod llywyddol. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylid ystyried hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol er mwyn caniatáu i drafodaethau cychwynnol gael eu cynnal gyda Gweithgor Adolygu Cyfansoddiad y Cyngor newydd yn y lle cyntaf.

Adroddwyd ymhellach, er nad oedd unrhyw ddeddfwriaeth a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i wneud newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor wedi'i chyflwyno yn ystod 2021/22, fod angen diwygio Rhan 6.1 i adlewyrchu symiau rhagnodedig Panel

Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, i'w talu i Gynghorwyr ar gyfer 2020/21, fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**11.1 yn unol â'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, i fabwysiadu Cynllun Cyflogau a Lwfansau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2022-2023, fel y nodir yn Rhan 6.1 o'r Cyfansoddiad;**

**11.2 mabwysiadu Cyfansoddiad y Cyngor am 2022-2023 yn amodol ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad sy'n deillio o benderfyniadau a wnaed yn gynharach yn y cyfarfod;**

**11.3 bod y Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i wneud unrhyw fân newidiadau, cywiro gwallau teipio neu wallau drafftio a sicrhau bod yr holl groesgyfeiriadau yn y Cyfansoddiad yn gywir ac y rhoddir gwybod am y rhain i Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad pan fydd angen.**

## 12. PENODI I BANELAU YMGYNGHOROL Y CYNGOR, CYRFF ALLANOL STATUDOL A CHYD-BWYLLGORAU

Bu'r Cyngor yn ystyried enwebiadau a gafwyd o ran penodi aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol statudol, Cyd-bwyllgorau a Phanelau Ymgynghorol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD dylid gwneud y penodiadau canlynol:**

| Y CORFF ALLANOL | CYNRYCHIOLWYR A BENODWYD |
|---|---|
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Y Cynghorydd A. Davies |
| Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys | Y Cynghorydd K. Davies<br>Y Cynghorydd J.K. Howell<br>Y Cynghorydd D. Jones |
| Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Y Cynghorydd K. Broom<br>Y Cynghorydd K. Madge<br>Y Cynghorydd G.B. Thomas<br>Y Cynghorydd D.E. Williams<br>1 x sedd i'w chadarnhau |
| Cyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe | Y Cynghorydd R. James<br>Y Cynghorydd A.G. Morgan<br>Y Cynghorydd R. Sparks |
| Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru – Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Y Cynghorydd R. James<br>Y Cynghorydd D. Thomas |
| Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru – Is-bwyllgor Trosolwg Llywodraethu a Chraffu | Y Cynghorydd R. James<br>Y Cynghorydd E. Schiavone<br>Y Cynghorydd R. Sparks |
| Partneriaeth – Grŵp Craffu | Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant |
| Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru | Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed |

| PANELAU'R CYNGOR | CYNRYCHIOLWYR A BENODWYD |
|---|---|
| **Gweithgor Trawsbleidiol Adolygu'r Cyfansoddiad** | **Y Cynghorydd D. Price<br>Y Cynghorydd L. Evans<br>Y Cynghorydd A. Lenny<br>Y Cynghorydd K. Broom<br>Y Cynghorydd W.T.Evans<br>Y Cynghorydd D.M. Cundy<br>Y Cynghorydd R. James<br>Y Cynghorydd D. Jones<br>Y Cynghorydd A.G. Morgan<br>Y Cynghorydd J.P. Jenkins** |
| **Y Panel Ymgynghorol ynghylch y Polisi Tâl** | **Y Cynghorydd D. Price<br>Y Cynghorydd A. Lenny<br>Y Cynghorydd G. John<br>Y Cynghorydd D.M. Cundy<br>Y Cynghorydd R. James<br>Y Cynghorydd A.G. Morgan** |

## 13. PENODI PERSONAU LLEYG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Gan gyfeirio at gofnod 6 o'r cyfarfod Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2022, dywedwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi argymell, yn dilyn y broses ymgeisio a'r cyfweliadau, fod Mrs. Julie James, Mr Malcolm MacDonald a Mr. David MacGregor yn cael eu penodi i swyddi Personau Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer y cyfnod o 25 Mai 2022 i 24 Mai 2027 er mwyn bodloni gofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**13.1 cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i benodi'r personau lleyg canlynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y cyfnod o 25 Mai 2022 i 24 Mai 2027:**
**Mrs. Julie James;**
**Mr. Malcolm MacDonald;**
**Mr. David MacGregor;**

**13.2 nodi byddai'r Awdurdod yn ail-hysbysebu ar gyfer y swydd Person Lleyg sy'n weddill.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Y CYNGOR LLAWN
## 22AIN MEHEFIN 2022

| |
|---|
| **PENODI AELOD CYMUNEDOL O'R PWYLLGOR I'R PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**<br>Bod y Cynghorydd Tref Phillip Rogers o Gyngor Tref Sanclêr yn cael ei ailbenodi'n Aelod Cymunedol o'r Pwyllgor tan ddiwedd ei dymor presennol yn y swydd fel Cynghorydd Tref/Cymuned**.** |
| Y Rhesymau:<br>Daeth cyfnod blaenorol y Cynghorydd Rogers fel aelod o'r Pwyllgor Safonau i ben ar 5 Mai 2022 |
| Angen ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu perthnasol Nac Oes<br>**Gan gynnwys dyddiad y Pwyllgor (os yw'n hysbys ac unrhyw arsylwadau yma neu yn yr adran Ymgyngoriadau)** |
| Angen i'r Cabinet wneud penderfyniad NAC OES<br>Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad OES |

| | | |
|---|---|---|
| YR AELOD O'R CABINET SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO: - Y Cynghorydd Linda Evans | | |
| Y Gyfarwyddiaeth:<br>Enw Pennaeth y Gwasanaeth:<br>Linda Rees-Jones<br>Awdur yr Adroddiad:<br>Robert Edgecombe | Swyddi:<br>Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith<br>Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol | Ffôn: 01267 224018<br>Cyfeiriadau e-bost:<br>rjedgeco@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# COUNCIL
# 22ND JUNE 2022

## APPOINTMENT OF A COMMUNITY COMMITTEE MEMBER OF STANDARDS COMMITTEE

Regulation 4 of the Standards Committees (Wales) Regulations 2001('the 2001 Regulations') requires a Standards Committee to have a Community Committee Member.

Town Councillor Philip Rogers of St Clears Town Council was appointed to this role in 2017 until the end of his of office as a Town Councillor.

Town Councillor Rogers therefore ceased to be the Community Committee Member of the Standards Committee on the 5th May 2022.

Town Councillor Rogers was returned unopposed as a Town Councillor in the May local government elections.

Regulation 21A of the 2001 Regulations (as amended) permits a Community Committee Member to be re-appointed for a further term of office subject to Town and Community Councils in the area being consulted.

This consultation has taken place and the responses received support the re-appointment of Town Councillor Rogers.

Full Council is therefore requested to re-appoint Town Councillor Phillip Rogers at a Community Member of the Standards Committee until the end of his current term of office as a Town Councillor.

| DETAILED REPORT ATTACHED? | NO |
| --- | --- |

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:**

**Signed:** *Linda Rees-Jones* **Head of Administration and Law**

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **YES** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

**1. Legal Implications**

Regulation 4 of the Standards Committees (Wales) Regulations 2001('the 2001 Regulations') requires a Standards Committee to have a Community Committee Member.

# CONSULTATIONS

| |
|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**<br><br>**Signed:** *Linda Rees-Jones* **Head of Administration and Law** |

**1. Scrutiny Committee**
Not applicable

**2.Local Member(s)**
Not applicable

**3.Community / Town Council**
All Town and Community Councils in the County and One Voice Wales have been consulted about the proposed action. The responses received are overwhelmingly supportive of it.

**4.Relevant Partners**
Not applicable

**5.Staff Side Representatives and other Organisations**
Not applicable

| **EXECUTIVE BOARD PORTFOLIO HOLDER(S) AWARE/CONSULTED** No | |
|---|---|

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Legal Services file | DPSC-0000 | County Hall Carmarthen |

# CABINET

## 14 MAWRTH 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Davies, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins a J. Tremlett.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr D.M. Cundy a R. James

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
M. Roberts, Swyddog Polisi Ansawdd yr Amgylchedd Lleol;
L. Morris, Uwch Swyddog Y Wasg;
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Sylwedydd);
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cymerwr Cofnodion).

**Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 10:42yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Emlyn Dole | 9 - Ardrethi Busnes - Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2022/23 | Mae'n berchen ar Salon trin gwallt a llety gwyliau |
| Hazel Evans | 9 - Ardrethi Busnes - Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2022/23 | Mae gan aelod agos o'i theulu fusnes yn y Sir. |
| Philip Hughes | 9 - Ardrethi Busnes - Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2022/23 | Mae'n berchen ar Westy Gwely a Brecwast yn y Sir. |

| | | |
|---|---|---|
| Jane Tremlett | 9 - Ardrethi Busnes - Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2022/23 | Mae ganddi fusnes yn y Sir. |
| Linda Evans | 9 - Ardrethi Busnes - Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2022/23 | Mae gan aelod agos o'i theulu fusnes yn y Sir. |

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR Y:-

### 3.1. 21 CHWEFROR 2022

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2022 yn gywir.**

### 3.2. 28 CHWEFROR 2022

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2022 yn gywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. YMESTYN GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS (GORCHMYNION CŴN SIR GAERFYRDDIN)

Cafodd y Cabinet adroddiad mewn perthynas ag ymestyn y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus presennol a oedd yn dod i ben ddiwedd mis Mehefin am 3 blynedd arall.

Esboniodd yr Aelod Cabinet bod y Gorchymyn Gwreiddiol, yn amodol ar nifer o eithriadau a chyfyngiadau, yn ei gwneud yn ofynnol i bobl:-

- Godi baw eu cŵn ar yr holl dir cyhoeddus yn y Sir.
- Rhoi a chadw eu cŵn ar dennyn drwy gyfarwyddyd.
- Peidio â mynd â'u ci ar unrhyw fannau chwarae caeedig i blant yn y Sir na gadael i'w ci fyned i nac aros ar unrhyw fannau o'r fath.

Roedd cyfnod ymgynghori wedi'i dargedu ar ymestyn y Gorchymyn wedi'i gynnal gyda nifer o ymgyngoreion statudol a rhanddeiliaid perthnasol eraill, ac roedd rhestr wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Dywedwyd bod 43 o ymatebion wedi dod i law gydag 85% o'r ymatebwyr hynny yn cefnogi ymestyn y Gorchymyn presennol am gyfnod o 3 blynedd.

Nododd Aelodau'r Cabinet fod nifer o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau ac awgrymiadau drwy'r ymarfer ymgynghori a bod y sylwadau a'r ymatebion wedi'u hatodi i'r adroddiad yn Atodiad 8 yr adroddiad yn ogystal ag ymateb cynhwysfawr gan y Kennel Club a Dogs Trust a oedd hefyd wedi'i atodi i'r adroddiad yn atodiadau 5 a 6 yn y drefn honno.

Roedd yr adroddiad yn ceisio ymestyn hyd Gorchymyn 2016 a fyddai'n golygu bod angen gwneud Gorchymyn Estyn newydd, ac roedd Gorchymyn drafft wedi'i atodi i'r adroddiad yn Atodiad 2. Dywedwyd y byddai'r Awdurdod, yn amodol ar ymgynghoriad ar wahân, yn gallu ystyried rheolaethau ac amodau ychwanegol i'w hychwanegu at y Gorchymyn presennol yn y dyfodol a bod ymarfer ymgysylltu'n cael ei gynnal ar hyn o bryd i geisio barn ehangach.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 fod hyd Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016 yn cael ei ymestyn am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2022 ymlaen;**

**6.2 bod y Cyngor yn gwneud Gorchymyn Estyn i weithredu'r estyniad uchod;**

**6.3 cymeradwyo Gorchymyn 2016 gyda geiriad addas i adlewyrchu'r ffaith fod hyd gorchymyn 2016 wedi'i ymestyn.**

## 7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2021, o ran 2021/2022. Er bod maint yr ymateb Covid-19 yn lleihau, roedd y sefyllfa gyllidebol yn cydnabod y pwysau ariannol parhaus a wynebwyd gan yr Awdurdod yn ogystal â'r cymorth ariannol ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad monitro yn rhagweld tanwariant ar gyfer y flwyddyn ar lefel adrannol o £3,702k gyda thanwariant o £2,901k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod. Ar lefel uchel, roedd hyn o ganlyniad i gyfuniad o'r canlynol:

- costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac incwm a gollwyd a gafodd ei ad-dalu i raddau helaeth o dan gynllun caledi Llywodraeth Cymru;
- roedd rhai gwasanaethau yn dal i fod wedi'u hatal neu eu heffeithio oherwydd y cyfyngiadau symud a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol yn Chwarter 1;
- Defnyddio rhywfaint o danwariant yr arian cyfalaf, oherwydd rhai pwysau sylweddol ar gyllidebau prosiectau cyfalaf yn ystod y flwyddyn, a gymeradwywyd fel rhan o adroddiad ar wahân.

Dywedodd Aelodau'r Cabinet fod y rhagolwg blwyddyn gyfan yn parhau i fod yn sensitif os bydd sefyllfa'r pandemig yn gwaethygu yn y dyfodol, yn enwedig pe bai angen ailgyflwyno cyfyngiadau cyhoeddus. Ymhellach, roedd cyfanswm o tua £13 miliwn o ran gwariant ychwanegol a cholli incwm wedi'i hawlio o dan gynllun caledi Llywodraeth Cymru yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn (Ebrill – Medi).

Roedd y Cyfrif Refeniw Tai yn rhagweld tanwariant o £1,826k ar gyfer 2021/22. Darparwyd manylion am hyn yn Atodiad B a oedd ynghlwm i'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.1 Dderbyn adroddiad monitro'r gyllideb, a nodi'r sefyllfa gyllidebol a'r camau unioni priodol a gymerwyd.**

**7.2 Bod y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu'r opsiynau oedd ar gael iddynt yn feirniadol i gyfyngu ar y gorwariant a ragwelwyd ar gyllidebau, yn ogystal â chydnabod effaith barhaus mesurau Covid-19 ar gyllideb gyffredinol yr Awdurdod.**

## 8. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2021/22

Cafodd y Cabinet adroddiad a oedd yn amlinellu'r sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf ar gyfer rhaglen gyfalaf 2021/22, fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2021 gan fanylu ar y prosiectau newydd i'w nodi a'u cymeradwyo gan y Cabinet.

Dywedwyd bod gwariant net adrannol o £56,526k yn cael ei ragweld o gymharu â chyllideb net weithredol o £104,923k gan roi -£48,397k o amrywiant.

Roedd y gyllideb net yn cynnwys rhaglenni cyfalaf gwreiddiol y Cyfrif Refeniw Tai a'r Gronfa Gyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 3 Mawrth, 2021 a llithriad o 2021/21 a newidiadau a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 25 Hydref, 2021. Nodwyd bod rhai cyllidebau hefyd wedi cael eu diwygio yn unol â'r gwahaniaethau yn y dyraniadau grant gwirioneddol o gymharu â'r dyraniadau disgwyliedig pan gafodd y rhaglen ei chymeradwyo.

Nodwyd bod Atodiad B yn manylu ar y prif amrywiannau ym mhob adran.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**8.1 fod yr adroddiad ar ddiweddaru rhaglen gyfalaf 2021/22 yn cael ei dderbyn;**
**8.2. bod y prosiectau newydd, fel yr oeddent yn yr adroddiad, yn cael eu nodi a'u cytuno.**

## 9. CYFRADDAU BUSNES - CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI MANWERTHU, HAMDDEN A LETYGARWCH 2022/23

Noder: Gan iddyn nhw ddatgan buddiant yn gynharach yn yr eitem hon, ailadroddodd y Cynghorwyr E. Dole, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, J. Tremlett eu datganiadau ac fe adawon nhw'r cyfarfod trwy gydol y drafodaeth a'r pleidleisio ar yr eitem hon.]

Ar y pwynt hwn, gan fod yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd wedi gadael y cyfarfod yn dilyn eu Datganiadau o Fuddiant, **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gan y cabinet benodi'r Cynghorydd David Jenkins yn Gadeirydd dros dro ar gyfer yr eitem hon.**

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am fabwysiadu cynllun rhyddhad ardrethi a oedd ar gael i Awdurdodau bilio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23. Roedd yr adroddiad yn argymell bod y Cabinet yn mabwysiadu cynllun Rhyddhad Ardrethi 2022/23 ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i'r argyfwng Coronafeirws yn 2020/21, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyflwyno'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch i gynyddu'r gostyngiad i 100%. Roedd y cynllun hwn hefyd yn berthnasol yn 2021/22 ac yn ogystal â'r sector manwerthu cafodd ei ymestyn i gynnwys y sectorau hamdden a lletygarwch er enghraifft siopau, tafarndai a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai.

Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddai'n darparu cyllid grant i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch i fusnesau cymwys yn 2022-23. Nod y cynllun oedd darparu cymorth ar gyfer eiddo cymwys a oedd yn cael eu defnyddio drwy gynnig gostyngiad o 50% ar y bil ardrethi annomestig ar gyfer eiddo, i bob safle cymwys.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu'r mathau o fusnes yr oedd yn eu hystyried yn briodol ar gyfer y cynllun rhyddhad hwn, yn ogystal â'r rhai nad oeddent yn eu hystyried yn briodol. Roedd y rhestr anghyflawn o fathau o fusnes wedi'i hatodi i'r adroddiad yn Atodiad A.

Dywedodd Aelodau'r Cabinet, ei bod yn briodol i'r cynllun gael ei fabwysiadu'n ffurfiol, gan mai mesur dros dro oedd hwn ac y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu'r rhyddhad drwy ad-dalu Awdurdodau Lleol sy'n defnyddio eu pwerau disgresiwn o dan Adran 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**9.1 fabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a lletygarwch 2022/23;**

**9.2 bod rhyddhad yn cael ei roi yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;**

**9.3 bod yr Aelod Cabinet dros Adnoddau yn penderfynu ynghylch unrhyw geisiadau nad ydynt o fewn cwmpas penodol y canllawiau neu y bydd angen rhoi ystyriaeth benodol iddynt.**

## 10. GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU

[Sylwer: O'r pwynt hwn, Cadeiriodd y Cynghorydd Emlyn Dole weddill y cyfarfod.

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â threfniadau benthyciad/prydles presennol, a ddaeth i ben ar 30 Medi 2021. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn y trefniadau am 6 mis pellach ar yr un amodau â'r cytundebau presennol tra bo'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn cwblhau'r strwythur ar gyfer ad-dalu'r benthyciad.

Dywedodd y Cabinet fod gan y Cyngor Sir hanes hir o gefnogi'r Ardd ers dechrau'r prosiect yn y 1990au. Roedd yr adroddiad yn rhoi rhestr o benderfyniadau blaenorol yn dyddio'n ôl i 2005 mewn perthynas â'r cymorth ariannol gan gynnwys Comisiwn y Mileniwm a Llywodraeth Cymru i sicrhau dyfodol hyfyw a hirdymor i'r Ardd ac roedd yn berthnasol i drafodaethau heddiw.

Dywedwyd bod y Gerddi yn 2020 wedi cael trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â dod o hyd i ateb cynaliadwy i ddyfodol hirdymor parhaus y Gerddi. Roedd y drafodaeth hon wedi parhau drwy gydol cyfnod presennol y benthyciad ac roedd yn dal i fynd rhagddi, er ei bod wedi'i gohirio er mwyn blaenoriaethu'r ymateb i Covid.

Roedd y Cytundeb Benthyciad, a lofnodwyd yn wreiddiol yn 2005, yn cynnwys cytundeb opsiwn Amodol ychwanegol a oedd yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r ffermdai o'r enw Gorswen, Alltgoch, Pantwgan a Bryncrwys (rhydd-ddaliadol) i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, yn amodol ar ad-dalu'r cyfan o'r benthyciad. Yn ogystal, er mwyn i'r Ardd ddatblygu ymhellach, roedd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael budd rhydd-ddaliadol y ffermdai. Dywedwyd bod cyfanswm y benthyciad ar hyn o bryd yn £1,350,000 ac nad oedd llog arno hyd yn hyn.

Dywedwyd ei bod yn debygol y byddai'r Gerddi mewn sefyllfa i ad-dalu'r benthyciad yn llawn i'r Cyngor Sir erbyn 31 Mawrth 2022 trwy becyn cymorth gan Lywodraeth Cymru.

Roedd yr adroddiad yn cynnig bod y Cabinet yn ymestyn y benthyciad yn ffurfiol i 31 Mawrth 2022, er mwyn gweithredu'r cytundeb opsiwn.

Dywedodd aelodau'r Cabinet eu bod yn cefnogi datblygiad pellach yr Ardd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**10.1 ymestyn benthyciad di-log yr Awdurdod i'r Ardd am 6 mis pellach hyd at 31 Mawrth 2022 (gan gynnwys y cytundeb opsiwn ar y ffermdy);**

**10.2. caniatáu i'r Ardd barhau i feddiannu tri o'r pedwar ffermdy ar sail tenantiaeth am 6 mis ychwanegol hyd at 31 Mawrth 2022;**

**10.3. nodi bod disgwyl i'r Benthyciad gael ei ad-dalu'n llawn cyn 31 Mawrth 2022.**

**11. UNRHYW FATER ARALL**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

# CABINET

Dydd Llun, 28 Mawrth 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Davies, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins a J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwr: D.M. Cundy

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh a Pholisi Corfforaethol
J. Jones, Pennaeth Adfywio
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
L. Morris, Uwch Swyddog Y Wasg
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.12 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR 14 MAWRTH 2022

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Cabinet oedd wedi ei gynnal ar 14 Mawrth 2022 gan eu bod yn gywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

## 7. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 8. PRYNU ASEDAU - LLITHRFA, MAES PARCIO A SIED WINSIO YM MHENTYWYN

**Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 7 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon yn datgelu sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas â thrafod telerau i gynigwyr posibl eraill gan arwain at gynigion uwch gan eraill a chostau uwch yn gyffredinol i'r Cyngor.**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi manylion am gynnig i gael y llithrfa, y maes parcio a'r hen sied winsio ym Mhentywyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**8.1 Cefnogi'r trafodaethau i brynu'r maes parcio, yr hen sied winsio a'r llithrfa (i'r traeth) ym Mhentywyn.**

**8.2 Cymeradwyo'r cynigion cyllido a amlinellwyd yn yr adroddiad.**

**CADEIRYDD** ____________________ **DYDDIAD** ____________________

# CABINET

Dydd Llun, 11 Ebrill 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Davies, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins a J. Tremlett;

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd D.M. Cundy;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh a Pholisi Corfforaethol;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
A. Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 10.15 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB / MATERION PERSONOL

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd Wendy Walters, y Prif Weithredwr, a Jake Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol, yn hwylus ar hyn o bryd a dymunodd wellhad buan iddynt.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. COFNODION - 28AIN MAWRTH 2022

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Cabinet oedd wedi ei gynnal ar 28ain Mawrth 2022 gan eu bod yn gywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2021 I RHAGFYR 31AIN 2021**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad diweddaru ar weithgareddau rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Rhagfyr 2021.

Pwysleisiwyd bod lefel bresennol y buddsoddiad yn sylweddol uwch na'r disgwyl ar hyn o bryd gyda balans o £181.1m wedi'i fuddsoddi ar 8 Ebrill 2022. Gydag arian pellach yn ddyledus yn y tymor byr i gynnwys ail daliad y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Ebrill 2022 (£20.1m), y grant costau byw (11.05m), taliadau ar gyfer y grant gweithwyr gofal cymdeithasol (£7.1m) a chyllid ychwanegol ar gyfer prosiect Bargen Ddinesig Bae Abertawe (£23m), rhagwelwyd y byddai'r sefyllfa o ran arian parod yn uwch na therfynau parti i gontract presennol yr Awdurdod.

Yng ngoleuni'r uchod, roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol o'r farn ei bod yn ddoeth defnyddio ei bwerau dirprwyedig i gynyddu'r terfynau ar rai partïon i gontract gan sicrhau y gellid buddsoddi'r arian yn ddiogel. O ganlyniad, byddai'n cynyddu cyfleuster y Swyddfa Rheoli Dyledion o £100m i £125m, a Chronfeydd y Farchnad Arian o £5m i £10m fesul parti i gontract (cedwir 5 Cronfa'r Farchnad Arian ar hyn o bryd). Ystyriwyd y dylai'r newidiadau hyn roi'r gallu i'r Awdurdod reoli lefel uwch y buddsoddiad a ragwelir sy'n ofynnol dros yr wythnosau nesaf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 bod yr Adroddiad ynghylch y Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Rhagfyr 2021 yn cael ei dderbyn;**

**6.2 cefnogi'r camau sydd i'w cymryd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol mewn perthynas â'r cynnydd i derfynau y parti i gontract;**

**6.3 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR ei fod yn cadarnhau'r penderfyniad uchod [6.2] pan fydd yn derbyn yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys i'w gymeradwyo maes o law.**

**7. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**